------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 24 Ionawr 2022

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

---

## Cofrestru a chyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod (13.00 - 13.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13:30)

## 2 Cyllideb Ddrafft 2022-23: Sesiwn graffu gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

(13:30-15:00) (Tudalennau 1 - 54)

Jane Hutt, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Hannah Blythyn, Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

Claire Bennett, Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi

Karin Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol

Sian Gill, Pennaeth Adroddi Ariannol

## 3 Papurau i'w nodi

(15:00-15:05)

**3.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE - 26 Tachwedd 2021**

(Tudalennau 55 - 57)

**3.2 Gohebiaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru ynghylch craffu ar Gyllideb 2022-23 - 14 Ionawr 2022**

(Tudalennau 58 - 64)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

3.3 Amcangyfrif Cyllideb Comisiynydd Plant Cymru 2022-23 - 14 Ionawr 2022

(Tudalennau 65 - 73)

3.4 Gohebiaeth at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch canolfannau preswyl menywod - 21 Rhagfyr

(Tudalen 74)

3.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch canolfannau preswyl menywod - 18 Ionawr

(Tudalennau 75 - 76)

3.6 Gohebiaeth at Brif Weinidog Cymru ynghylch cyfiawnder data - 21 Rhagfyr

(Tudalen 77)

3.7 Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru ynghylch cyfiawnder data - 18 Ionawr

(Tudalennau 78 - 79)

3.8 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol - 21 Rhagfyr 2021

(Tudalennau 80 - 81)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(iv) a (ix) i wahardd y cyhoedd o weddill cyfarfod heddiw

## 5 Cyllideb Ddrafft 2022-23: trafod y dystiolaeth

(15:05-15:40)

## Egwyl (15.40-15.50)

## 6 Monitro Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

(15:50-16:10) (Tudalennau 82 - 96)

## 7 Adolygiad o amserlenni’r Pwyllgorau: trafod yr ymateb drafft i'r Llywydd

(16:10-16:25)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Dyddiad: 24 Ionawr 2021**

**Teitl: Craffu ar gyllideb ddrafft 2022-23 Llywodraeth Cymru**

## Cyflwyniad

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys cynlluniau gwariant ar gyfer 2022-23 i 2024-25. Mae'r papur hwn yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar gynigion cyllideb rhaglenni'r dyfodol mewn perthynas â'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Cyfiawnder Cymdeithasol fel yr amlinellwyd yn y Gyllideb Ddrafft a osodwyd ar 20 Rhagfyr 2021.

Mae Atodiad A yn rhoi dadansoddiad o ddyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Cyfiawnder Cymdeithasol ar gyfer 2022-23 yn ôl Maes Rhaglenni Gwariant, Cam Gweithredu a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL).

Mae Atodiad B yn cynnig sylwadau ar bob un o'r Camau Gweithredu yn y MEG, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2022-23 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 (Mehefin 2021).

## Tablau Ariannol

Darperir gwybodaeth fanwl mewn perthynas â BEL unigol yn Atodiadau A a B. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i gyllidebau'r MEG rhwng Cyllideb Derfynol 2021-22 a Chyllideb Ddrafft 2022-23.

| | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 101,677 | 110,177 | 8,500 | 8.4% | 122,177 | 125,177 |
| Heb Fod yn Arian Parod | 169 | 178 | 9 | 5.3% | 178 | 178 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **101,846** | **110,355** | **8,509** | **8.4%** | **122,355** | **125,355** |
| **Cyfanswm y Cyfalaf** | **16,887** | **17,000** | **113** | **0.7%** | **17,000** | **17,000** |

## Proses y gyllideb

Rydym wedi cynnal yr adolygiad amlflwyddyn cyntaf o wariant ers 2015, ac wrth wraidd y gyllideb hon mae dyfodol cryfach, tecach a gwyrdd. Er mwyn llywio'r broses o ddyrannu cyllidebau refeniw amlflwyddyn, cynhaliwyd proses adolygu newydd i gysoni'r gwariant â'r Rhaglen Lywodraethu newydd. Rydym wedi ceisio defnyddio dull integredig i ddeall yn well effeithiau croestoriadol ac anfwriadol gwariant er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

Mae'r gyllideb hon yn amlinellu sut y byddwn yn parhau i ymateb i effeithiau dinistriol y pandemig ar ehangu anghydraddoldebau ac yn parhau i dargedu ein hysgogiadau ariannol tuag at y meysydd ble y gallant gael yr effaith fwyaf er mwyn mynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r cyd-destun presennol hefyd wedi tynnu

sylw at amrywiaeth o anghydraddoldebau strwythurol a oedd yn bodoli cyn y pandemig y mae’r cyllid yr ydym wedi’i amlinellu wedi’i dargedu i fynd i’r afael â nhw. Roedd trechu tlodi yn un o’r themâu trawslywodraethol a fu'n sail i'r gwaith o baratoi’r gyllideb, a thrafodwyd blaenoriaethau cyffredin gyda Gweinidogion.

Mae’r dull integredig hefyd wedi’i gynnal wrth asesu effaith ein penderfyniadau gwariant sy’n sail i’r Asesiad Integredig Strategol o Effaith ein Cyllideb. Mae’r dull hwn yn ein galluogi i ddeall sut y gallwn dargedu cyllid i sicrhau canlyniadau gwell drwy ddeall sut y mae gwahanol anghenion ac effeithiau yn croesgyffwrdd, yn enwedig o ran y rhai â nodweddion gwarchodedig, ac ar yr un pryd ceisio deall a lliniaru effeithiau anfwriadol.

Ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2022-23, rydym wedi cynnwys manylion am effeithiau penderfyniadau gwariant fel rhan o'r prif naratif ym mhenodau pedwar a chwech ac wedi amlinellu'r cyd-destunau economaidd ac ariannol yn adroddiad y Prif Economegydd a phennod dau o naratif y gyllideb.

O fewn fy mhortffolio fy hun, rwyf wedi gwneud nifer o ddyraniadau sy’n anelu at drechu tlodi ac anghydraddoldebau. Mae'r rhain yn cynnwys dyraniadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol, y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol a'r Cynllun Pwyslais ar Incwm yn ogystal â dyraniadau i'r gyllideb Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol i gefnogi nifer o weithgareddau sy'n anelu at leihau anghydraddoldebau. Rhoddir manylion y dyraniadau hyn yn adrannau diweddarach y papur hwn.

## Dyraniadau COVID-19

Yn ystod 2020-21 a 2021-22 mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud dyraniadau o’r cronfeydd wrth gefn yn benodol er mwyn mynd i’r afael ag effeithiau Covid-19. Nid yw Llywodraeth y DU wedi darparu unrhyw ddyraniadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 fel rhan o’n setliad ar gyfer 2022-23 ac felly nid oes unrhyw ddyraniadau Covid-19 pellach wedi’u gwneud fel rhan o’r Gyllideb Ddrafft hon.

Mae’n amlwg bod y pandemig hwn wedi gwaethygu anghydraddoldebau a bydd yr anghydraddoldebau hyn yn parhau yn y flwyddyn ariannol nesaf a thu hwnt. Fel Llywodraeth, rydym wedi gwneud dyraniadau i liniaru’r anghydraddoldebau hyn ac wedi darparu cymorth ychwanegol ar gyfer prydau ysgol am ddim, y Cynnig Gofal Plant, Dechrau’n Deg a'r gwasanaethau digartrefedd ymhlith eraill.

O fewn fy mhortffolio, rwyf wedi gwneud dyraniadau i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ac i drechu tlodi drwy’r Gronfa Cymorth Dewisol drwy dreialu Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol a darparu cymorth ar gyfer Gwasanaethau Pwyslais ar Incwm. Rwyf wedi gwneud dyraniadau ehangach i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau eraill drwy'r BEL Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol. Bydd hyn yn darparu cymorth ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol; Uned Gwahaniaethau ar sail Hil; Tasglu Hawliau Anabledd; gweithredu Cynllun Gweithredu LGBTQI+ i Gymru ac adolygiad a gweithrediad y Cynllun Gweithredu Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhywiol.

Er mwyn mynd i’r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, rwyf hefyd wedi gwneud dyraniad pellach i gefnogi ein dull gweithredu ar ffurf Strategaeth a Glasbrint newydd ochr yn ochr â’n rhaglen buddsoddi cyfalaf. Rhoddir rhagor o fanylion isod am y dyraniadau hyn.

Rydym hefyd wedi adeiladu ar y camau a gymerwyd gennym o fewn Cyllideb 2021-22 ac wedi parhau i adlewyrchu'r angen i atal niwed i'r rhai mwyaf difreintiedig ac atal effeithiau negyddol ehangach ar bobl Cymru a'r economi ehangach o ganlyniad i'r pandemig drwy ddiogelu iechyd a swyddi, creu dyfodol gwyrdd a chreu Cymru decach drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o bob math.

Ni wnaed unrhyw ddyraniadau penodol ar gyfer Covid-19 fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon, er y bydd yr holl ddyraniadau'n seiliedig ar angen a bydd hynny wedi ystyried effeithiau parhaus y pandemig. Er enghraifft, mae cyllid wedi'i ddyrannu i gefnogi'r Tasglu Hawliau Anabledd a gwaith i gyflwyno ein hymateb i'r ddogfen 'Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19

Hefyd, gan ddeall y bydd y pandemig yn parhau i gael effeithiau ariannol ar ein dinasyddion mwyaf agored i niwed, rydym yn rhagweld y bydd y galw am y Gronfa Cymorth Dewisol yn annhebygol o ddychwelyd i lefelau cyn-Covid ac o ganlyniad rydym wedi dyrannu £7 miliwn ychwanegol i linell sylfaen cyn-Covid y gyllideb hon.

Cynlluniwyd trydedd rownd Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector a oedd ar waith yn 2021-22 nid yn unig i helpu sefydliadau i oroesi'r pandemig parhaus, ond hefyd i'w helpu i addasu a dod yn fwy gwydn yn y dyfodol. Etifeddiaeth barhaus Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector yw y bydd sefydliadau'r trydydd sector sy'n elwa o'r cyllid yn dod yn fwy cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn annog adrannau i gynnig grantiau amlflwyddyn. Mae'r rhain yn galluogi sefydliadau i gynllunio staff ac adnoddau'n well er mwyn helpu i ymateb i anghenion eu buddiolwyr

## Hyrwyddo Hawliau Dynol

Bydd y dyraniadau yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar Gydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol yn ein galluogi i ddatblygu ymrwymiadau hawliau dynol ein Rhaglen Lywodraethu estynedig. Mae gwaith cwmpasu pellach ar y gweill i gadarnhau cwmpas, graddfa ac amseriad y camau nesaf.

Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r Grŵp Llywio Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rhagwelir y bydd unrhyw ddeddfwriaeth yn cael ei chreu yn ystod rhan olaf tymor y Senedd hon. Byddwn unrhyw ddeddfwriaeth yn destun ymgynghoriad ac yn cael ei hategu gan asesiad trylwyr o unrhyw gostau cysylltiedig.

## Cyllid y Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Bydd y Rhaglen Gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant gyfredol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022. Datblygwyd y rhaglen i gefnogi Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru 2016-20 ac mae'n cynnwys saith prif faes sy'n ymwneud â hil; anabledd; LGBTQI+; rhywedd; Sipsiwn, Roma a Theithwyr; Troseddau Casineb; a Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches.

Mae gwaith i ddatblygu rhaglen newydd wedi bod yn mynd rhagddo. Ymgynghorodd fy swyddogion ar ddyfodol y rhaglen hon ar ddechrau 2021. Ar 28 Medi cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig am ganlyniad yr ymgynghoriad, a amlygodd gefnogaeth gyffredinol i'n nodau a'n hegwyddorion, ond hefyd yr angen am fwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid i'n galluogi i'w cyflawni.

Rydym wedi cynnal dau gyfarfod a hwyluswyd yn annibynnol gyda phartneriaid ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr i gyd-lunio'r rhaglen newydd. Drwy'r broses hon, rydym wedi nodi cymorth craidd a fydd yn cael ei sefydlu o fis Ebrill 2021 a meysydd pellach a fydd yn cael eu datblygu mewn partneriaeth yn ystod rhan gyntaf 2022/23.

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Cymru'n unigryw am ei bod wedi gwneud addewid i warchod buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal ag ymateb i heriau'r presennol. Roedd y Rhaglen Lywodraethu wreiddiol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021 yn nodi'r 10 amcan llesiant yr ydym yn gweithio tuag atynt y tymor hwn, yn ogystal ag amlinellu'r camau yr ydym yn eu cymryd i gyflawni'r nodau hyn. Bydd cyflawni'r amcanion hyn yn cynyddu ein cyfraniad at y nodau llesiant i'r eithaf. Mae'r Rhaglen Lywodraethu ddiwygiedig ac estynedig hon yn cynnal ein hymrwymiad i'r 10 amcan llesiant hyn.

Bydd yr amcanion hyn yn caniatáu inni gyflawni Cymru fwy llewyrchus, mwy cyfartal a gwyrdd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan fynd i'r afael â'r heriau rhyfeddol y mae Cymru'n eu hwynebu a chreu sylfaen gynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol adeiladu arni. Nid yw ein hymrwymiad i'r amcanion hyn wedi newid.

Y Gyllideb hon yw'r gyllideb gyntaf yn nhymor y Senedd hon ac fe'i datblygwyd i ategu ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i greu Cymru Gryfach, Tecach a Gwyrdd. Fel yr amlinellir ym Mhennod 4, mae'r dyraniadau sydd wedi'u cynnwys yn y Gyllideb Ddrafft hon yn cyd-fynd ag amcanion llesiant Llywodraeth Cymru sydd wrth wraidd y Rhaglen Lywodraethu i wneud y mwyaf o effeithiau'r cyllid sydd ar gael sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Fel rhan o Gyllideb 2020-21, fe wnaethom gyhoeddi Cynllun Gwella'r Gyllideb am y tro cyntaf. Amlinellodd y Cynllun ein gweledigaeth, gan gynnwys uchelgeisiau tymor byr a chanolig dros y pum mlynedd nesaf, i wella proses y gyllideb gan ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf Llesiant) a'r pum ffordd o weithio i ysgogi gwelliant parhaus.

Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi'r Cynllun yn flynyddol i gydnabod natur barhaus ysgogi a chynnal newid tymor hwy. Ein nod cyffredinol yw y bydd y gwelliannau arfaethedig hyn i broses y gyllideb yn arwain at fwy o dryloywder yn nogfennau'r Gyllideb flynyddol i ddangos sut y mae'r Ddeddf wedi dylanwadu ar benderfyniadau cyllidebol.

Mae'r Cynllun diwygiedig hwn yn parhau i ddangos sut rydym wedi adeiladu, neu'n bwriadu adeiladu, ar y gwaith hwn yn y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys y mesurau yr ydym wedi'u cymryd yn ystod y cylch cyllideb presennol.

Bydd dyraniadau ein cyllideb yn ein galluogi i gyflawni ein hamcanion llesiant ac yn ein helpu i wneud y mwyaf o'n cyfraniad at y nodau llesiant.

**<u>Swyddogion Cymorth Cymunedol</u>**

Yn Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 gwnaed ymrwymiad i gynnal y cyllid ar gyfer 500 o swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac i ychwanegu 100 at y nifer hwn. Yn

seiliedig ar gostau cyflogi 100 o swyddogion ychwanegol yn 2021-22, rydym wedi dyrannu £3.7 miliwn yn 2022-23 i gyllido'r ymrwymiad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu i gadw cymunedau'n ddiogel. Yn rhan annatod o Dimau Plismona Bro, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn llygaid a chlustiau eu cymunedau. Maent yn mabwysiadu dull ataliol o ddatrys problemau yn eu hardaloedd lleol. Bydd y Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol yn gweithio o fewn cymunedau gan ddarparu cymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed a gweithio gyda nhw, gan ddod o hyd i atebion ar lawr gwlad ar gyfer materion fel ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**<u>Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol</u>**

Mae'r gyllideb yn cynnwys dyraniad i alluogi cynnal cynllun peilot ar gyfer cynllun incwm sylfaenol yng Nghymru ar gyfer carfan o bobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae'r ymrwymiad hwn yn estyniad o'r cyflog cymdeithasol a'r model cyffredinoliaeth flaengar y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddilyn ers dros 20 mlynedd.

Rwyf wedi dyrannu £5 miliwn yn 2022-23 a £5 miliwn arall yn 2023-24 i dalu costau'r cynllun peilot hwn. Yn 2024-25, disgwylir i gostau'r cynllun peilot ostwng i £5 miliwn ac felly mae £5 miliwn o linell sylfaen y flwyddyn flaenorol wedi'i ailddyrannu i flaenoriaethau eraill o fewn y MEG.

Pwrpas y cynllun peilot yw sicrhau bod pobl ifanc sy'n rhan ohono yn cael yr holl gymorth sydd ei angen arnynt er mwyn rhoi'r siawns orau bosibl iddynt o lwyddo yn y byd a sicrhau bod y broses o bontio o ofal yn well, yn haws ac yn fwy cadarnhaol. Mae cynllun peilot Incwm Sylfaenol yn cefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i hyrwyddo 'Cymru o gymunedau cydlynus' a 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal'.

Yn amodol ar ddatrys y materion ymarferol sy'n weddill, gan gynnwys y cysylltiad rhwng ein Taliadau Incwm Sylfaenol a'r system fudd-daliadau, rwy'n bwriadu cyflwyno'r cynllun peilot yn y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2022.

I gyd-fynd â'r peilot bydd gwerthusiad deinamig a fydd yn caniatáu inni ddysgu beth sy'n gweithio i'r cyfranogwyr, a beth nad yw'n gweithio, wrth i ni symud ymlaen. Erbyn diwedd y cynllun peilot hwn, rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu cynhyrchu argymhellion a fydd yn berthnasol i'r rhai sy'n gadael gofal a grwpiau eraill a allai elwa. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd y cynllun peilot yn cynnig syniadau y gellir eu cyflawni yn y byd go iawn ar gyfer llesiant ariannol, llesiant emosiynol, a llwybrau at addysg a chyflogaeth.

**<u>Y Gronfa Cymorth Dewisol</u>**

Gydag unigolion yn parhau i gael eu heffeithio gan y pwysau yn sgil Covid-19, mae unigolion a theuluoedd ledled Cymru yn troi at y Gronfa am gymorth ychwanegol i'w helpu gyda rhai o'r pwysau a'r heriau ariannol y maent yn eu hwynebu. O ganlyniad, rwyf wedi dyrannu £7 miliwn o refeniw ychwanegol yn 2022-23 y gosodir llinell sylfaen ar ei gyfer drwy gydol cyfnod y gyllideb a bydd yn fy ngalluogi i barhau i gefnogi'r galw parhaus hwn ar y gronfa.

Mae parhau i ddarparu cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol, gan gynnwys:

- Cymru gydnerth – mae'r Gronfa Cymorth Dewisol bellach yn cyfeirio ei hymgeiswyr mwyaf agored i niwed at y Gronfa Gynghori Sengl, sy'n rhoi cyngor ar gynyddu

incwm, sicrhau bod unigolion yn cael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, a hefyd cyngor ar ddyledion. Mae hyn yn hybu sefydlogrwydd ariannol tymor hwy i'r unigolion hyn.

- Cymru sy’n fwy cyfartal – mae’r Gronfa Cymorth Dewisol yn darparu cymorth i unigolion sy'n agored i niwed i gael gafael ar fwyd, nwy a thrydan mewn sefyllfaoedd lle na fyddent yn gallu gwneud hynny fel arall.

**Gwasanaethau Cynghori**

Drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau cynghori a gwneud y gorau o incwm, eir i'r afael ag anghydraddoldeb ac yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol i bawb. O ganlyniad, rwyf wedi dyrannu £1.7 miliwn o 2023-24 i ehangu’r Gronfa Gynghori Sengl a gweithgareddau ategol ar wneud y gorau o incwm. Bydd y cyllid yn cynyddu capasiti cynghorwyr budd-daliadau lles a dyledion y Gronfa Gynghori Sengl ac yn galluogi cyflwyno ystod o fentrau codi ymwybyddiaeth cenedlaethol a lleol.

Mae canlyniadau gwasanaethau cynghori yn cefnogi nifer o’r nodau llesiant cenedlaethol, gan gynnwys Cymru lewyrchus drwy helpu pobl i wneud y gorau o’u hincwm a meithrin eu gwydnwch ariannol a Chymru iachach drwy leihau’r straen sy'n cael ei greu yn sgil problemau lles cymdeithasol sydd heb eu datrys.

Mae penderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru ar wasanaethau cynghori yn seiliedig ar y pum ffordd o weithio (egwyddor datblygu cynaliadwy). Drwy’r Gronfa Gynghori Sengl, mae cyllid grant wedi’i ddyfarnu i gonsortia cynghori a oedd yn cofleidio uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer modelau cyflawni cydweithredol sy’n datrys problem lles cymdeithasol unigolyn ac sy’n cynnig mynediad iddynt at wasanaethau sy’n meithrin eu gallu, gan ddatblygu eu gallu i wrthsefyll problemau sy'n ymwneud â lles cymdeithasol yn y dyfodol.

**Strategaeth Gwrthdlodi**

Rwyf wedi dyrannu £3 miliwn yn 2024-25 tuag at y Strategaeth Gwrthdlodi. Bydd llinell y gyllideb Cefnogi Cymunedau hefyd yn parhau i ddarparu £1 filiwn o gyllid refeniw i gefnogi banciau bwyd.

O dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd statudol i ddatblygu a chyhoeddi strategaeth tlodi plant a gosod amcanion ar gyfer trechu tlodi plant. Cyhoeddwyd y strategaeth bresennol yn 2015. Rwyf wedi ymrwymo i adnewyddu’r Strategaeth Tlodi Plant fel ei bod yn adlewyrchu’n well y problemau y mae Cymru’n eu hwynebu ar hyn o bryd a’r opsiynau sydd ar gael inni.

Wrth wneud hynny, byddaf yn adeiladu ar ganfyddiadau'r Adolygiad Tlodi Plant ac yn fwy diweddar ar waith Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, gan helpu i ddatblygu fframwaith mwy cydlynol ar gyfer trechu tlodi yng Nghymru a helpu i wneud y mwyaf o effaith ymyriadau trawslywodraethol a sicrhau atebolrwydd. Bydd hefyd yn cynnwys ymgysylltu cymunedol ystyrlon â phlant, pobl ifanc a’u teuluoedd (yn ogystal â gweithwyr rheng flaen sydd â phrofiad o weithio gyda theuluoedd) sydd â phrofiad bywyd o dlodi.

## Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol

Bydd dyraniadau refeniw i'r BEL Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol o £4.6 miliwn yn 2022-23, £9.5 miliwn yn 2023-24 a £12.7 miliwn yn 2024-25 tuag at y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a gweithgareddau eraill yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru, yn hyrwyddo a chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol, yn gwella canlyniadau i bobl ac yn cyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal.

Cyflawnir hyn drwy ariannu camau gweithredu sy'n deillio o'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, y Tasglu Hawliau Anabledd, y Cynllun Gweithredu LGBTQI+ ac ymrwymiadau i ymgorffori Urddas Mislif ymhellach. Ceir ymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth i ymgorffori Confensiynau penodol y Cenhedloedd Unedig yng Nghyfraith Cymru yn ogystal â chymryd camau penodol mewn perthynas â deddfwriaeth ynghylch Gwahardd Therapi Trosi a datganoli'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd.

Arweiniodd y ffaith ofnadwy mai pobl anabl oedd chwech o bob deg o'r marwolaethau'n ymwneud â Covid 19 ledled y DU at gomisiynu ymchwil gan Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl Llywodraeth Cymru.

Bydd y dyraniad, fel y nodir uchod, hefyd yn darparu cymorth i'r Tasglu Hawliau Anabledd ac yn sgil hynny gweithredu'r camau sy'n deillio o'i waith, yn ogystal â Chynllun Gweithredu LGBTQI+ a gwaith pellach i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol.

### Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

Mae'r Pandemig Covid wedi dod â'r mannau lle ceir yr anghydraddoldebau dyfnaf mewn cymdeithas i'r amlwg. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud, ar y cyd â rhanddeiliaid a phartneriaid cyflawni, i nodi pa gamau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r rhain. Ar ddechrau'r pandemig daeth darlun pryderus i'r amlwg ynghylch effeithiau Covid ar bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Sefydlodd Llywodraeth Cymru grwpiau Cynghori yn gyflym ac wedi hynny datblygodd Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru. Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni addewid y Prif Weinidog i gyflawni Cymru Wrth-hiliol erbyn 2030.

Er y bydd llawer o'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn rhan o bortffolios Gweinidogion eraill, rwyf wedi gwneud dyraniadau o fewn fy MEG i sicrhau y gallwn sefydlu mecanweithiau atebolrwydd (gan gynnwys y Grŵp Atebolrwydd), cyflawni camau allweddol ynghylch llety a chartrefi i Sipsiwn a Theithwyr, cefnogi unigolion a grwpiau sy'n gweithio gyda chymunedau ac ar draws y Llywodraeth i sicrhau bod llunwyr polisïau yn gallu cael mynediad teg at y rhai sydd â phrofiadau bywyd.

Byddaf hefyd yn sefydlu Uned Gwahaniaethau ar sail Hil fel rhan o'r Uned Tystiolaeth ar Gydraddoldeb, Hil ac Anabledd i arwain ein gwaith a sicrhau ein bod yn datblygu ymyriadau sy'n cael yr effaith gadarnhaol fwyaf arwyddocaol.

### Unedau Tystiolaeth ar Gydraddoldeb, Hil ac Anabledd

Er mwyn llywio datblygiad polisi, gwaith cynllunio strategol a chyllidebol a datblygu ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â meysydd lle mae anghydraddoldeb yn gwaethygu, byddaf yn sefydlu Uned Tystiolaeth ar Gydraddoldeb, Hil ac Anabledd Bydd hyn yn cynnwys unedau sy'n canolbwyntio'n benodol ar hil, anabledd a chydraddoldeb. Bydd yr Unedau hefyd yn sicrhau gwerthusiad mwy effeithiol o effaith polisïau a phenderfyniadau.

Bydd recriwtio i'r unedau yn dechrau ym Mlwyddyn 1 (2021-22) gyda dyraniad o £1.695 miliwn a bydd y capasiti a'r gallu yn cynyddu dros y blynyddoedd dilynol.

## Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli

Mae’r pandemig wedi dangos pwysigrwydd y trydydd sector a’r rôl y bydd yn ei chwarae i sicrhau bod ein hadferiad yn deg ac yn gyfiawn. Mae CGGC a’r 19 o gynghorau gwirfoddol sirol ledled Cymru yn darparu’r seilwaith cymorth sy’n sicrhau bod y trydydd sector yn cael ei lywodraethu’n dda a'i fod yn wydn ac yn gynaliadwy.

Mae’r sector gwirfoddol yng Nghymru yn gweithio gyda llawer o’n pobl a’n cymunedau sydd fwyaf agored i niwed. Mae pobl yn ymddiried ynddo mewn ffordd nad ydynt yn ymddiried yn y sector cyhoeddus. Gall gyrraedd pobl na all y sector cyhoeddus eu cyrraedd ac felly sicrhau eu bod yn cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae'r sector wedi chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi cymunedau drwy'r pandemig, tuag at adferiad a thu hwnt.

Yn y rhaglen lywodraethu rydym yn ymrwymo i barhau â'n partneriaeth gref â sefydliadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau. O ganlyniad, bydd cyllideb y Trydydd Sector yn cynyddu i £9.294 miliwn yn 2024-25 yn dilyn dyraniad o £1.8 miliwn.

Mae'r dyraniad cyllideb tair blynedd hwn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gynnig dyfarndaliadau grant amlflwyddyn, gan alluogi sefydliadau i ddefnyddio adnoddau’n well, datblygu partneriaethau a gweithio mewn partneriaeth yn y tymor hwy. Bydd y cydweithio hwn yn arwain at wasanaeth integredig gwell a fydd yn ei dro yn caniatáu ymyriadau cynharach a gweithgarwch ataliol.

Mae sefydliadau'r trydydd sector yn gweithio ledled Cymru gan ddefnyddio eu seilwaith i gefnogi'r gwirfoddolwyr y maent yn eu recriwtio a'u cynnull i gyflawni llawer o'n polisïau a'n blaenoriaethau megis y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Mae’r sefydliadau hyn hefyd yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.

- Mae sefydliadau gwirfoddol sy’n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol – ochr yn ochr â’r GIG a llywodraeth leol yn cyfrannu at well canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol. (Cymru iachach)
- Mae mynediad at help a chyngor gan sefydliadau'r sector gwirfoddol yn amrywio o fanciau bwyd i elusennau addysg yn cyfrannu at well canlyniadau i blant a theuluoedd. (Cymru sy'n fwy cyfartal)
- Mae sefydliadau'r sector gwirfoddol sy'n cefnogi grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, a'r gymuned LGBTQI+ yn helpu i rymuso pobl. (Cymru o gymunedau cydlynus).
- Weithiau gall rhaglenni cyflogaeth a weithredir gan y trydydd sector gyrraedd y rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad swyddi. (Cymru lewyrchus).

## Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Rwyf wedi dyrannu refeniw pellach o £1.050 miliwn yn 2022-23 ac wedi pennu llinellau sylfaen ar gyfer y blynyddoedd i ddod a £2.1 miliwn o gyfalaf ym mhob un o’r tair

blynedd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Mae cyllid cyfalaf a refeniw Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cefnogi ein dyletswydd statudol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 i ddileu pob math o gamdriniaeth o'r fath yng Nghymru. O dan Adran 3 o Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015 rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi Strategaeth Genedlaethol sy'n nodi amcanion a chamau gweithredu i gyflawni dibenion y Ddeddf: atal, diogelu a chefnogi'r gwaith hwn yng Nghymru. Effeithiau arfaethedig Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-2026 yw newid y diwylliant a'r ymateb i drais o'r fath, gwella cymorth i ddioddefwyr a'u plant ac atal troseddu ac aildroseddu.

Wrth ddatblygu'r Strategaeth ddrafft, rydym wedi ystyried y nodau llesiant cenedlaethol ac wedi parhau i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum ffordd o weithio). Mae'r Strategaeth ddrafft yn cyfrannu at:

- Gymru lewyrchus drwy leihau'r effaith economaidd negyddol sy'n aml yn gysylltiedig â bod yn oroeswr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol;
- Cymru iachach drwy wella llesiant corfforol a meddyliol goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol a'u teuluoedd;
- Cymru sy'n fwy cyfartal drwy sicrhau bod goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael cymorth i'w hannog i gyflawni eu potensial;
- Cymru o gymunedau cydlynus drwy godi ymwybyddiaeth o Drais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol ac annog pawb i gydnabod nad yw camdriniaeth o'r fath yn dderbyniol; a
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang drwy ddatblygu ystorfa ganolog i goladu data ac ymchwil sy'n ymwneud â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol, gyda'r nod o ddysgu o arfer da.

**<u>Partneriaethau Cymdeithasol</u>**

Bydd y dyraniad Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg o £0.238 miliwn yn 2022-23, £0.435 miliwn yn 2023-24 a 2024-25 yn helpu i gyflwyno Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a'i roi ar waith yn effeithiol a gwneud cynnydd pellach gyda chyflawni argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg i gynyddu cyfraddau gwaith teg.

Bydd y Bil yn sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol ac yn cyflwyno dyletswyddau newydd mewn perthynas â phartneriaeth gymdeithasol, caffael cymdeithasol cyfrifol a hyrwyddo gwaith teg. Bydd y dyraniad cyllid ychwanegol yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n effeithiol, gan gynnwys datblygu canllawiau statudol ac anstatudol; cyflwyno sesiynau hyfforddi a gweminarau; gweithgarwch cyfathrebu a datblygu astudiaethau achos, offer ac adnoddau.

Yn benodol, bydd y dyraniad yn ein cefnogi i ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid cymdeithasol; cynyddu ymyriadau i annog mabwysiadu ac achredu cyflog byw go iawn; gwella lledaeniad gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i unigolion am eu hawliau yn y gwaith; cyfleu manteision cymdeithasol ac economaidd partneriaeth gymdeithasol a

gwaith teg; a gwella ein cyfraniad at fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a mathau eithafol o gam-fanteisio ar weithwyr.

Er mwyn datblygu argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg mae angen datblygu a chyflawni ystod eang o gamau gweithredu i gynyddu argaeledd gwaith teg a mynediad ato. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi ein gallu i ehangu ymyriadau i annog mabwysiadu ac achredu cyflog byw go iawn; lledaenu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i unigolion am eu hawliau yn y gwaith; cyfathrebu manteision cymdeithasol ac economaidd gwaith teg; hyrwyddo mynediad at undebau llafur yn ogystal â gwella ein cyfraniad at fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a mathau eithafol o gamfanteisio ar weithwyr.

Bydd gofynion adrodd ffurfiol mewn perthynas â phartneriaeth gymdeithasol, caffael cymdeithasol cyfrifol a gwaith teg yn cael eu cyflwyno a byddant yn darparu tryloywder o ran y cynnydd a wneir a'r canlyniadau a gyflawnir. Mae'r canlyniadau a fwriedir yn cynnwys gwaith partneriaeth cymdeithasol cryfach sy'n sail i brosesau llunio polisïau gwell ac effaith ehangach; gwelliant yn y profiad o waith yng Nghymru a fydd yn helpu i wneud Cymru yn lle mwy atyniadol i fyw a gweithio ynddo; a gwella gallu'r system gaffael gyhoeddus i sicrhau gwerth cymdeithasol gwirioneddol i bobl a chymunedau yng Nghymru.

## Cyrff Cyhoeddus / Penodiadau Cyhoeddus

Mae'r pecyn cais a anfonir at bob ymgeisydd am benodiad cyhoeddus sy'n cael ei reoleiddio yng Nghymru yn cynnwys cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r cyfrifoldebau sydd gan y cyrff hynny sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf mewn perthynas â'r Ddeddf honno.

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn aelod o Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus Cymru ac yn gyfrannwr cyson at y trafodaethau a gynhelir yn y Fforwm hwnnw, yn ogystal â chyflwynydd rheolaidd ar agweddau ar gyfrifoldebau cyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Dyraniad ar gyfer Banc Cymunedol

Mae datblygiadau polisi Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Banc Cymunedol Cymru, sydd i'w ddarparu gan y sector preifat, yn cael eu datblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rwyf wedi dyrannu cyfalaf o £1.5 miliwn ar gyfer y blynyddoedd 2022-23 a 2023-24, ac mae £1.75 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer 2024-25 i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Banc. Cynhaliwyd 'asesiad o effaith' ar y bwriad i ddarparu Banc Cymunedol Cymru gan sefydliad ariannol presennol y sector preifat.

Bydd Banc Cymunedol i Gymru yn cefnogi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy (pum ffordd o weithio) fel a ganlyn:

**Hirdymor -** Byddai'r Banc Cymunedol yn mynd i'r afael â phroblem uniongyrchol a pharhaus yn sgil y ffaith bod banciau manwerthu yn gadael y stryd fawr yng Nghymru. Drwy greu cysylltiadau ariannol sefydlog ag unigolion a microfusnesau, byddai'n arwain at feddwl a chynllunio mwy hirdymor, yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol.

**Atal -** Byddai'r Banc Cymunedol yn helpu i atal dirywiad cymunedau lleol yng Nghymru drwy liniaru effeithiau cau canghennau banciau eraill.

**Integreiddio -** Mae'r Banc Cymunedol wedi ymrwymo i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru ar lawer o'i mentrau economaidd gan gynnwys 'Canol Trefi yn Gyntaf' a 'Hybiau Economaidd' a bydd yn llofnodi'r contract economaidd.

**Cydweithio -** Mae'r Banc Cymunedol yn bwriadu gweithio ar draws ecosystem ariannol Cymru, gan gydweithio a chreu partneriaeth ag awdurdodau lleol, cynghorau tref/cymuned, undebau credyd ac endidau eraill sy'n eiddo i'r ddwy ochr.

**Cynnwys -** Mae darpariaethau cydfuddiannol (1 aelod – 1 bleidlais) wrth galon y Banc Cymunedol. Mae defnyddio Fforymau Aelodau yn ganolog i genhadaeth y banc i gael ei arwain gan aelodau. Bydd yn canolbwyntio ar lesiant ariannol aelodau fel rhan o'r ddarpariaeth er mwyn galluogi aelodau i ffynnu.

## Y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

Mae gan y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol gyllideb o £6.5 miliwn yn 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yw'r rhaglen grant cyfalaf sy'n darparu grantiau ar gyfer gwella cyfleusterau cymunedol y mae mawr eu hangen – tir ac adeiladau. Gellir defnyddio'r Grant Cyfleusterau Cymunedol hefyd i helpu cymunedau i gymryd perchnogaeth o'r cyfleusterau hyn.

Mae'r grant hwn yn helpu cymunedau i fod yn wyrdd. Mae'n darparu grantiau i helpu gyda systemau gwresogi ynni effeithlon, goleuo, ffenestri a drysau neu dechnoleg newydd fel paneli solar. Mae cyfleusterau cymunedol addas at y diben yn golygu bod pobl leol yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn eu cymunedau, sy'n golygu nad oes rhaid iddynt deithio y tu allan iddynt mor aml.

Mae cyfleusterau cymunedol yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol fel a ganlyn:

- Mae cyfleusterau cymunedol yn darparu amgylchedd cynhwysol i'r gymuned ddod at ei gilydd a chymdeithasu. Maent yn ganolbwynt gweithgaredd cymunedol. (Cymru o gymunedau cydlynus)
- Mae cyfleusterau cymunedol yn helpu i atal unigrwydd ac arwahanrwydd a gallant ddarparu mynediad at gymorth i golli pwysau, rhoi'r gorau i ysmygu neu ymarfer corff. (Cymru iachach)
- Mae Cyfleusterau Cymunedol yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli, swyddi lleol a chyfleoedd hyfforddi (Cymru sy'n fwy cyfartal).

## Gwasanaethau Tân ac Achub

Mae £0.9 miliwn o gyfalaf wedi'i ddyrannu ym mhob un o'r tair blynedd ar gyfer cyfarpar i gefnogi ymweliadau Diogel ac Iach y tri Gwasanaeth Tân ac Achub â chartrefi ein dinasyddion sydd fwyaf 'mewn perygl'. Bydd yn ariannu cyfarpar diogelwch tân cymhleth i atal tanau a pheryglon eraill, gan ganiatáu i'r dinasyddion bregus hyn fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r rhaglen hon yn cyfrannu at yr amcanion hybu iechyd a llesiant da ac adeiladu cymunedau iachach ac amgylcheddau mwy gwydn i fyw ynddynt.

## Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn elfen allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu estynedig. Mae’r Dyraniad ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr o £3.7 miliwn ar gyfer 2022-23, £3.2 miliwn ar gyfer 23-24 a £3.4 miliwn ar gyfer 2024-25 yn darparu’r buddsoddiad cyfalaf i ddarparu mwy o lety diwylliannol-briodol a’i wella.

Ers i ni greu’r ddyletswydd i nodi a diwallu’r angen am lety priodol yn Neddf Tai (Cymru) 2014, rydym wedi gweld ymhell dros ddau gant o leiniau newydd yn cael eu creu, neu’n cael eu hadnewyddu, llawer ohonynt ar safleoedd teuluol bach, preifat.

Mae prinder o ryw 100 o leiniau preswyl parhaol i Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru yn ogystal ag angen sefydledig am ddarpariaeth tramwy. Mae’r maes buddsoddi hwn yn cefnogi ein Hawdurdodau Lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol i ddarparu llety priodol, yn ogystal â chefnogi datblygiad mynediad cynaliadwy at gyfleustodau a gwasanaethau priodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy’n byw ar safleoedd preswyl yng Nghymru.

Yn ystod yr ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol clywsom dystiolaeth bwerus gan Sipsiwn a Theithwyr am y rhwystrau i leiniau cyhoeddus a phreifat newydd ac am yr angen i ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd trigolion yn fwy effeithiol. Bydd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol diwygiedig yn ymrwymo i ddefnyddio dyraniadau cyfalaf mewn ffyrdd mwy arloesol, wedi'u hategu gan weithgarwch refeniw i adolygu canllawiau ar ddylunio a rheoli safleoedd cyhoeddus, gyda chymorth i'r rhai sy'n ceisio datblygu eu safleoedd teuluol eu hunain.

## Cefnogi Cymunedau

Ar ôl i Gyllid Pontio Ewropeaidd ddod i ben, byddwn yn cynnal y cyllid refeniw o £1 filiwn yn ein llinell sylfaen refeniw a fydd yn adeiladu ar y cyllid a ddarparwyd yn y tair blynedd flaenorol i gefnogi nifer cynyddol o bobl sy’n wynebu tlodi bwyd. Bydd yn cefnogi’r gwaith o gryfhau mentrau bwyd cymunedol ar draws holl awdurdodau lleol Cymru, gan gynnwys ffocws ar weithgarwch sy’n helpu i fynd i’r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd.

Bydd y cyllid cyfalaf o £1 filiwn y flwyddyn yn cefnogi sefydliadau i gynyddu eu capasiti i ddarparu bwyd maethlon o ansawdd da i’w cwsmeriaid. Defnyddir y cyllid refeniw mewn amrywiaeth o ffyrdd i weddu i ofynion ardal pob awdurdod gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddatblygu prosiectau megis archfarchnadoedd cymdeithasol, caffis cymunedol, clybiau cinio a dosbarthiadau coginio cymunedol. Bydd ffocws ar fentrau sy’n helpu i feithrin cydnerthedd cymunedol a mynd i’r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd, megis datblygu hybiau cymunedol sy’n cydleoli ystod o wasanaethau cymorth megis cyngor ar ddyledion a thai, cynlluniau llwgu yn ystod y gwyliau, caffis cymunedol, mentrau cymdeithasol a gwasanaethau cynghori, wedi'u datblygu o amgylch darpariaeth bwyd cymunedol.

Gellir defnyddio cyllid hefyd i fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd, er enghraifft, drwy ddatblygu a chryfhau partneriaethau bwyd gyda'r bwriad o greu systemau bwyd lleol iach a chynaliadwy.

## Adolygiad o’r cyrff sy’n destun y ddyletswydd llesiant

Bydd goblygiadau ariannol ymestyn y rhestr o gyrff cyhoeddus o dan Adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu hasesu fel rhan o Asesiad

Effaith Rheoleiddiol.  O ystyried yr angen i ymgysylltu â’r holl bartïon yr effeithir arnynt, a deall y goblygiadau i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol, rydym yn bwriadu cwblhau’r adolygiad erbyn haf 2022.

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

Derbyniodd Llywodraeth Cymru Amcangyfrif o Gyllideb Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol ar gyfer 2022-23 ar 29 Hydref 2021. Cais cyllideb yn seiliedig ar anghenion ydoedd, ac mae’n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan swyddogion a fydd yn cynghori’r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn ei gylch erbyn canol mis Ionawr 2022.

## Tlodi ac anghydraddoldeb rhywiol

Yn 2022 byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ymchwil a wnaed gan Ganolfan Dystiolaeth Covid-19 a fydd yn cynorthwyo gyda gwaith i ailwampio ac ailflaenoriaethu camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywiol er mwyn mynd i’r afael ag effeithiau Covid-19 ar gydraddoldeb rhywiol a’u lliniaru.

Mae nifer o ddyraniadau wedi'u gwneud drwy'r Gyllideb Ddrafft hon yn benodol i fynd i'r afael â thlodi ymysg menywod. O fewn fy mhortffolio fy hun, bydd y gronfa grant urddas mislif yn parhau i gael ei chynnig i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod urddas mislif yn cael ei ymgorffori mewn ysgolion ac ehangu ein darpariaeth mislif mewn cymunedau a’r sector preifat. At hynny, rydym wedi comisiynu gwerthusiad proses i sicrhau bod cyllid yn y dyfodol yn cael ei gyfeirio'n fwyaf effeithiol er mwyn cyrraedd cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.  Mae ein Cynllun Gweithredu Strategol ar Urddas Mislif, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ym mis Hydref 2021, yn amlinellu sut y byddwn yn ehangu ein gwaith ar urddas mislif ar draws cymunedau.

Lle bo modd, bydd y broses o ddarparu cyllid craidd Chwarae Teg yn cyd-fynd ag adnewyddu'r cynllun Cyflogadwyedd ac Entrepreneuriaeth. Mae Chwarae Teg wedi cynnal ymchwil yn ymwneud ag effaith COVID 19 ar fenywod, ac yn benodol ar y menywod hynny â chyfrifoldebau gofalu, gan fod COVID wedi cael effaith niweidiol arnynt. Mae Chwarae Teg yn gweithio gydag ystod o swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru mewn amrywiaeth o feysydd i roi cyngor, cymorth ac arweiniad ar sut y gellir gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol.

Byddwn yn buddsoddi cyfanswm o £50 miliwn ychwanegol mewn cymorth i blant, teuluoedd a gofal plant ym mlwyddyn gyntaf y gyllideb hon, gyda dyraniadau pellach yn y blynyddoedd i ddod.  Mae hyn yn tanlinellu ein hymrwymiad i sicrhau ein bod yn rhoi’r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn. Yn y flwyddyn i ddod byddwn yn buddsoddi swm cychwynnol o £3.5 miliwn  i ehangu’r Cynnig Gofal Plant fel rhan o’n hymrwymiad i gefnogi mwy o rieni sy'n hyfforddi ac mewn addysg gyda chostau gofal plant. Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allweddol ar draws y sector gofal plant a chwarae, ac o fewn llywodraeth leol, ar gynlluniau i gynyddu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 2 oed i'w hariannu drwy'r Grant Plant a Chymunedau. Mae'r buddsoddiad hwn, a'r ymrwymiadau hyn, yn cydnabod pwysigrwydd addysg gynnar o ansawdd uchel a darpariaeth gofal ar gyfer datblygiad plant, a'r rôl hollbwysig y mae mynediad at ofal plant fforddiadwy yn ei chwarae wrth gefnogi rhieni, yn enwedig mamau, i gael gwaith.

Mae tystiolaeth yn dangos bod mwyafrif y gweithwyr gofal cymdeithasol yn fenywod dros 40 oed, nad ydynt yn annibynnol yn ariannol er eu bod mewn gwaith amser llawn.

Bydd darparu gwell cyflog drwy gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn helpu i fynd i'r afael â chyflogau isel sy'n gysylltiedig â'r sector ac yn gwneud gwaith gofal cymdeithasol yn fwy deniadol. Mae hyn nid yn unig yn sicrhau gwelliannau i'r gweithlu gofal cymdeithasol, ond hefyd yn gwella cyfraddau cadw'r gweithlu a chanlyniadau i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth. Bydd y camau gweithredu hyn yn helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol drwy gael effeithiau cadarnhaol ar y rhai ar incwm is, a bydd hyn yn rhan o ystyriaethau a gwerthusiadau mwy manwl o'r asesiad o'r effaith.

Mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn ystyried sut i wella amodau gwaith ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae cydraddoldeb a chynhwysiant yn greiddiol i'r diffiniad o Waith Teg yng Nghymru a bydd yr ystyriaethau hyn yn sail i waith y Fforwm. Cadarnhaodd y Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol y camau sy'n cael eu cymryd i ddarparu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn ystod 2022-2023.  Mae cyllid ar gyfer hyn ac i gydnabod y pwysau ehangach ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu drwy'r cynnydd yn y setliad llywodraeth leol heb ei neilltuo.

Darperir cyfran fawr o ofal a chymorth yng Nghymru gan ofalwyr di-dâl, sy'n aml yn deulu a ffrindiau. Mae tystiolaeth o'r Arolwg o Adnoddau Teulu ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiau wrth ddarparu gofal di-dâl yn dangos bod menywod 55-64 oed yn fwyaf tebygol o fod yn ofalwyr ac yn fwy tebygol na dynion o ddarparu gofal anffurfiol ar draws pob grŵp oedran, ac eithrio'r grŵp oedran 85 a hŷn. Mae ymchwil blaenorol wedi dangos bod menywod yn eu pumdegau yn fwy tebygol na dynion o adael y farchnad lafur i ddarparu gofal di-dâl i aelodau'r teulu. Mae'r ffaith bod menywod yn fwy tebygol o ddarparu gofal yn golygu eu bod yn fwy tebygol o wynebu effeithiau cyflogaeth andwyol sy'n gysylltiedig â gofalu h.y. enillion is a gadael y farchnad lafur. Yn yr un modd, dangosodd cyfrifiad 2011 mai menywod yw mwyafrif y gofalwyr di-dâl - mae 57% o ofalwyr yng Nghymru yn fenywod ac mae menywod o oedran gweithio (25 i 64) yn sylweddol fwy tebygol na dynion o fod yn darparu gofal di-dâl i rywun ag anabledd neu salwch neu i berson hŷn. O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi cyllid mewn cymorth i ofalwyr di-dâl mewn perthynas â nifer o feysydd megis darparu seibiannau byr a gofal seibiant a datblygu cerdyn adnabod i ofalwyr ifanc. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â buddsoddiad parhaus o tuag £1 filiwn mewn cymorth i ofalwyr drwy fyrddau iechyd lleol, prosiectau perthnasol o dan y Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, a chymorth drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Cymru'n Gweithio yw dull Llywodraeth Cymru o ddarparu cyngor cyflogadwyedd a gyrfaoedd am ddim, wedi'i deilwra i anghenion ac amgylchiadau unigolyn. Mae'r gwasanaeth, a ddarperir gan Gyrfa Cymru, yn darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd proffesiynol i unigolion 16 oed a hŷn, drwy gynnal asesiad ar sail anghenion, gan gynnwys rhwystrau i gyflogaeth, a chyfeirio'r unigolyn at gymorth priodol. Mae'r gwasanaeth yn darparu pwynt mynediad cenedlaethol i gymorth cyflogadwyedd, sy'n cefnogi ac yn ategu sianeli presennol.  Mae hwn ar gael i fenywod.

Darperir Cronfa Ddysgu Undebau Cymru drwy 18 o brosiectau Undebau ac mae cymorth ar gyfer dysgu ar gael i'r gweithlu mewn gweithleoedd lle ceir Undeb. Mae'r prosiectau wedi ymateb yn gadarnhaol i'r pandemig Covid 19 drwy newid o amgylchedd dysgu wyneb yn wyneb i ddysgu ar-lein sydd, dros amser, wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n dysgu. Mewn rhai gweithleoedd, mae dysgu wyneb yn wyneb yn ailddechrau'n raddol.  Rydym wrthi'n asesu ceisiadau er mwyn dyfarnu cyllid i Undebau i redeg y rhaglen newydd a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2022. Mae'n canolbwyntio'n gryf ar faterion cydraddoldeb gan gynnwys cydraddoldeb rhywiol.

Mae cystadleuaeth sgiliau yn rhoi cyfle i unigolion neu dimau gystadlu yn erbyn ei gilydd i ddangos eu doniau mewn sgil galwedigaethol penodol, gan ddefnyddio tasgau sy'n deillio o sefyllfaoedd go iawn yn y diwydiant. Caiff gwaith pob unigolyn ei sgorio gan arbenigwyr yn unol â meini prawf y cytunwyd arnynt, ac mae'r sgôr(iau) uchaf yn mynd ymlaen i gam nesaf y gystadleuaeth.   Mae cystadlaethau'n gweithredu ledled Cymru, hyd at lefel y DU a lefel ryngwladol.  Mae’r prosiect Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru yn defnyddio cystadleuaeth sgiliau fel ffordd o esblygu i ysbrydoli a chodi dyheadau pobl ifanc i gyflawni rhagoriaeth.  Mae hyn yn cynnwys datrys problemau'n ymwneud â gwahanu ar sail rhyw.

Fel rhan o’r gwaith o gynyddu prentisiaethau byddwn yn ystyried sut i dargedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i weithio yn y sector, er enghraifft, gallai hyn fod drwy neilltuo prentisiaethau gradd ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir yn unig neu drwy godi ymwybyddiaeth wedi’i dargedu fel rhan o waith cyfathrebu. Bydd manylebau ymchwil hefyd yn cynnwys casglu data yn ymwneud â chydraddoldeb a chynhwysiant. Mae cysylltiad hefyd rhwng dysgu ar raglenni prentisiaeth a nodau gofal cymdeithasol y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol sy'n ymwneud â mynediad i weithwyr a chanlyniadau gwell i bobl.

Cynhelir asesiad effaith integredig ar y gwaith a bydd hwn yn ystyried yn fanylach effeithiau ar sail croestoriad yn ogystal â chyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant.

## Profiad menywod yn y system cyfiawnder troseddol

Yn 2021-22, gwnaed dyraniad ychwanegol o £0.5 miliwn i fwrw ymlaen â gwaith y Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid, gan gynyddu’r gyllideb i £1.075 miliwn sy'n cael ei ddefnyddio fel llinell sylfaen ar gyfer 2022-23.

Mae’r cyllid ychwanegol wedi ein galluogi i ddarparu cefnogaeth barhaus i Ddull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod a’r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25, sy’n anelu at wella canlyniadau i fenywod sy’n dod i gysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru, drwy ddarparu pecyn cymorth integredig amlasiantaeth sy'n benodol ar gyfer menywod.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydariannu'r prosiect 'Visiting Mum' gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, a fydd yn helpu i gryfhau a chynnal cysylltiadau rhwng menywod Cymru yn yr ystâd ddiogel a'u plant.

## Goblygiadau i gydraddoldeb yn sgil defnyddio data a chyfiawnder data

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall buddsoddi mewn tystiolaeth gadarn gefnogi defnyddio adnoddau priodol wedi'u targedu er mwyn mynd i’r afael ag anghydraddoldeb a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol i bawb. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu Uned Gwahaniaethau ar Sail Hil ac Uned Gwahaniaethu ar sail Anabledd ochr yn ochr ag Uned Data Cydraddoldeb i sicrhau sylfaen dystiolaeth gynhwysol er mwyn llywio penderfyniadau yn y llywodraeth ac ar draws y Sector Cyhoeddus. Bydd yr Unedau'n gweithio i wella cydlyniad, cysondeb, defnydd ac argaeledd tystiolaeth cydraddoldeb ar Gymru. Bydd y gwaith hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag argymhellion Tasglu Data Cynhwysol yr Ystadegydd Gwladol ar lefel Cymru.

Bydd y ddwy Uned yn cael eu hariannu o'r dyraniad a wneir i'r BEL Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol.

## Trais yn y cartref a diogelwch menywod mewn mannau cyhoeddus

Dyraniad y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 22-23 yw £7.875 miliwn o refeniw, cynnydd o £1.050 miliwn o linell sylfaen 2021-22, a £2.2 miliwn o gyllid cyfalaf. Mae cyllid grant yn cyfrannu at holl amcanion y Strategaeth Genedlaethol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol ac yn bodloni ymrwymiad Llywodraeth Cymru ar gyflawni dibenion Deddf 2015.

Rydym wedi gwneud ymrwymiad drwy'r Rhaglen Lywodraethu i *Gryfhau'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod yn y stryd a'r gweithle yn ogystal â'r cartref.* Y canlyniadau a fwriedir yw i Gymru i fod y lle mwyaf diogel i fenyw neu ferch, ac na ddylai neb ddioddef neu farw yn sgil cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Y strategaeth fydd:
- newid agweddau'r cyhoedd tuag at Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol drwy godi ymwybyddiaeth;
- Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach;
- Mwy o ffocws ar ddwyn y rhai sy'n cyflawni camdriniaeth i gyfrif a chefnogi'r rhai a allai ymddwyn yn dreisgar i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu;
- Gwneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth;
- Bod gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael eu hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr; a,
- Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau o ansawdd uchel, sydd ag adnoddau priodol, a arweinir gan anghenion, sy'n seiliedig ar gryfderau, gwasanaethau rhyngadrannol ac ymatebol ledled Cymru.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu hefyd yn ein hymrwymo i *"Ehangu'r ymgyrchoedd hyfforddi ac ymwybyddiaeth 'Gofyn a Gweithredu' a 'Paid Cadw'n Dawel".* Yn unol â Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015, mae gofyniad statudol i hyfforddi awdurdodau a gweithwyr proffesiynol perthnasol a gyflawnir drwy fframwaith hyfforddi Gofyn a Gweithredu Llywodraeth Cymru.

Mae atal yn ganolog i'r Strategaeth Genedlaethol ac mae ehangu'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth 'Paid Cadw'n Dawel' yn allweddol iddi, ac yn fwy penodol, y canlyniadau fydd sicrhau:
- Bod gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael eu hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr; a,
- Newid agweddau'r cyhoedd tuag at Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol drwy godi ymwybyddiaeth.

## Mewnfudo a Hawliau Dinasyddion Ewropeaidd o dan delerau ymadawiad y DU â'r UE

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi darparu cyllid i amrywiaeth o sefydliadau i sicrhau y gallai Dinasyddion yr UE gael y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i wneud cais am Statws Preswylydd Sefydlog a mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau y gallent fod yn eu profi yng Nghymru. Yn 2021-22 roedd hyn yn cynnwys £600,000 ar gyfer prosiect Hawliau Dinasyddion yr UE (a ddarparodd gyllid i Gyngor ar Bopeth Cymru a Settled gan gynnwys costau hyfforddi a chyfathrebu) a £174,000 ar gyfer Newfields Law i ddarparu cyngor cyfreithiol cymhleth ar gyfer apeliadau.

Daeth cynllun Statws Preswylwyr Sefydlog Llywodraeth y DU i ben ar 30 Mehefin 2021 ond rydym wedi parhau i ddarparu cyllid i'r sefydliadau hyn tan ddiwedd mis Mawrth 2022 i ddatrys materion sy'n codi a chefnogi ceisiadau hwyr i'r cynllun. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried beth fydd y lefel fwyaf priodol o gyllid gofynnol y tu hwnt i fis Mawrth 2022 ond rydym yn rhagweld gostyngiadau yn lefel y cymorth a ddarperir.

Bydd Prosiect Hawliau Dinasyddion yr UE yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022 ond credwn y bydd rhywfaint o gefnogaeth barhaus i Ddinasyddion yr UE yn parhau. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn costio tua £200,000-250,000 yn 2022-23.

Mae'r cymorth i Ddinasyddion yr UE yn 2022-23 wedi'i ystyried ochr yn ochr ag anghenion cymorth mewnfudo eraill sy'n dod i'r amlwg ac sydd wedi'u nodi. Ers 2019, rydym wedi gallu defnyddio cyllid o Gronfa Lloches, Ymfudo ac Integreiddio (AMIF) yr UE ar gyfer ein prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid ond bydd hwn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022. Mae'r prosiect AilGychwyn wedi bod yn hollbwysig i sicrhau bod 'Canolfannau ESOL' ar waith yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam. Mae'r Canolfannau hyn yn chwarae rhan hanfodol o ran sicrhau bod pawb sy'n dod i Gymru yn gallu caffael sgiliau iaith cyn gynted â phosibl i'w cynorthwyo i integreiddio. Yn sgil colli AMIF (o ganlyniad i adael yr UE) bydd angen inni ymchwilio i a oes modd parhau i ariannu Canolfannau ESOL drwy gyllidebau Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal, mae Cymru bellach yn gartref i nifer o deuluoedd o Affganistan a Hong Kong yn sgil y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi creu llwybrau fisa ac adsefydlu yn ddiweddar. Rydym yn rhagweld y bydd £2.3 miliwn ychwanegol ar gael fel rhan o Amcangyfrif Atodol yn y dyfodol er nad yw hyn wedi'i gadarnhau eto. Yna byddwn yn ceisio defnyddio hyn fel rhan o'n gwaith yn y maes hwn.

## Anghydraddoldebau iechyd, disgwyliad oes iach a ffordd o fyw

Mae mesurau presennol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd wedi'u cael eu hymgorffori ar draws pob gweithgaredd fel rhan o'r gwaith cynllunio strategol sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Deddf 2015') a thrwy ein dull 'iechyd ym mhob polisi' (a gefnogir gan y broses Asesu'r Effaith ar Iechyd. O ganlyniad nid yw'n bosibl dadgyfuno'r gyllideb benodol a ddyrennir i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd o gyfanswm gwariant y llywodraeth. Fodd bynnag, mae enghreifftiau penodol o wariant y llywodraeth sy'n cyfrannu'n fawr at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn cynnwys ymyriadau fel Rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru sydd wedi cael cynnydd mewn cyllid drwy'r Grant Plant a Chymunedau yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol.

Mae Deddf 2015 yn parhau i fod yn ysgogiad pwysig sy'n llywio ein hystyriaethau o'r Gyllideb ac rydym wedi parhau i ymgorffori pum ffordd o weithio Deddf 2015 yn ein dull gweithredu a'r prosesau sy'n ei gefnogi. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi mabwysiadu dull integredig o asesu effaith, sy'n cynnwys ystyried hawliau plant,

adlewyrchu eu nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, yn ogystal ag ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, fel y nodir yn Neddf 2015, yn ogystal â chynaliadwyedd y Gymraeg. Bydd rhagor o fanylion am ein dull o asesu effeithiau ar gael ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft i'w chyhoeddi ar 20 Rhagfyr.

Mae ein profiad o ymdrin â’r pandemig COVID-19 wedi amlygu'r costau sy'n gysylltiedig â goddef anghydraddoldebau iechyd yn ein cymunedau o ran effaith anghymesur y pandemig ar bobl llai cefnog yng Nghymru. Mae'r profiad hwn wedi amlygu pwysigrwydd mynd i'r afael ag achosion yr anghydraddoldebau hyn ar fyrder ac wedi cynyddu ein huchelgais. O’r herwydd, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar waith atal ac ymyrryd yn gynnar. Rydym wedi cynnal y £7.2 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer cyllid Atal a'r Blynyddoedd Cynnar a byddwn yn newid ei ffocws i sicrhau ei fod yn cael ei dargedu at ddau brif achos marwolaeth y gellir ei osgoi yng Nghymru: gordewdra ac ysmygu. Gan ddefnyddio’r cyllid hwn, byddwn yn cefnogi prosiectau ar draws Byrddau Iechyd Lleol sydd:

- ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn cefnogi’r gwaith o gyflwyno cymorth rhoi’r gorau i ysmygu i gleifion mewnol ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol;
- yn cefnogi gostyngiad yn nifer y bobl sy'n ysmygu yn ystod beichiogrwydd a chefnogi rhoi'r gorau i ysmygu;
- yn cefnogi gwaith atal yn y maes gordewdra a thros bwysau, yn unol â'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach a chwrdd â mesurau presennol yn ymwneud ag iechyd y boblogaeth.

Ochr yn ochr â’r gwaith hwn, fel y cyfeirir ato uchod, mae buddsoddiad parhaus mewn ymyriadau fel Dechrau’n Deg yn cyfrannu’n sylweddol at yr agenda atal ac ymyrraeth gynnar drwy wneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant yn y blynyddoedd cynnar, sy'n gyfnod hollbwysig, yn yr ardaloedd ble y cynhelir y rhaglen.

## Tai fforddiadwy o ansawdd da

Mae tai fforddiadwy o ansawdd da yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol, addysg, cyflogaeth ac yn wir bob agwedd ar fywyd rhywun. Dyma pam mae Cymru wedi parhau i gefnogi tai cymdeithasol. Mae’r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi gwneud dyraniadau sylweddol drwy’r MEG Newid Hinsawdd i ddiwallu anghenion tai.

Mae byw yn dda mewn cartref o safon yn arwain at ystod eang o fanteision i iechyd, addysg a ffyniant gan gefnogi agenda ehangach y llywodraeth ar gyfer gwella canlyniadau i iechyd a llesiant a chyrhaeddiad addysgol yn ogystal ag ar dlodi a datgarboneiddio. Mae tai o ansawdd da yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant, gan helpu i leihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Er enghraifft, gall buddsoddi mewn gwella effeithlonrwydd ynni mewn tai newydd a thai presennol helpu i leihau tlodi tanwydd a dibyniaeth ar fudd-daliadau, ac amcangyfrifir y bydd pob £1.00 sy’n cael ei gwario ar effeithlonrwydd ynni yn arbed tua 0.42c mewn costau iechyd.

Gall tai o ansawdd gwael neu dai gorlawn gael effaith andwyol ar blant a phobl ifanc o ran eu llesiant corfforol a meddyliol a'u canlyniadau addysgol. Hefyd, mae plant sy'n byw mewn tai gwael iawn 20% yn fwy tebygol o fynd i adrannau damweiniau ac achosion brys ysbytai na phlant eraill.

Mae buddsoddi mewn tai yn sicrhau canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a llesiant da i bobl a chymunedau yng Nghymru, gan greu cartrefi a

lleoedd i gefnogi cymunedau bywiog lle y gall pobl fyw'n dda. Mae darparu cartrefi o ansawdd uchel, sy'n gynnes, yn ddiogel ac yn ynni-effeithlon i'r bobl sydd eu hangen fwyaf yn helpu i leihau effeithiau negyddol tai o ansawdd gwael neu anfforddiadwy a thlodi tanwydd. Er ein bod yn gwybod bod achosion digartrefedd yn gymhleth, gwyddom mai tlodi ac anghydraddoldeb sydd wrth eu gwraidd. Gwyddom fod tai cymdeithasol yng Nghymru yn chwarae rhan allweddol o ran mynd i’r afael â digartrefedd, gan gefnogi rhai o’n hunigolion mwyaf agored i niwed, a bod tai hygyrch a fforddiadwy o ansawdd da yn sicrhau bod pobl yn gallu cynnal eu tenantiaeth a ffynnu. Gall arwain at effaith gadarnhaol ar iechyd, iechyd meddwl ac addysg.

Yn ogystal â hynny, mae buddsoddiadau mewn tai â gofal ac addasiadau yn rhoi mesurau atal sylfaenol ar waith i liniaru anghydraddoldebau iechyd, cymdeithasol ac economaidd rhai o’r grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas e.e. pobl eiddil oedrannus, pobl â dementia, plant ac oedolion â phroblemau corfforol ac anableddau dysgu, a phlant ag anghenion cymhleth ac uwch (anghenion corfforol, niwrolegol ac ymddygiadol).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod rôl bwysig y sector rhentu preifat o ran diwallu’r angen am dai. Mae’r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi buddsoddi mewn rhaglenni i gynyddu mynediad i’r sector rhentu preifat a’i fforddiadwyedd drwy gynllun prydlesu cenedlaethol sy’n buddsoddi mewn safonau eiddo, yn cysylltu rhenti â chyfraddau budd-daliadau ac yn cynnig sicrwydd tymor hwy a chymorth a rheolaeth landlordiaid cymdeithasol. Gwnaed buddsoddiad ychwanegol mewn cyllidebau taliadau tai yn ôl disgresiwn i sicrhau y gall awdurdodau lleol gefnogi unigolion a theuluoedd i dalu costau rhentu preifat.

Ar hyn o bryd, mae £108 miliwn y flwyddyn yn cael ei wario drwy Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) i gefnogi landlordiaid cymdeithasol i ddarparu cartrefi cymdeithasol cynnes o ansawdd da, i rai o aelwydydd mwyaf agored i niwed Cymru. Mae 1.4 miliwn o gartrefi yn gyfrifol am 27% o’r holl ynni a ddefnyddir yng Nghymru a 15% o’n holl allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr gan ddefnyddwyr. Mae gwneud gwaith ôl-osod yn y cartrefi hyn yn fesur ataliol sylfaenol gan ei fod yn ceisio gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi i leihau eu hallyriadau carbon er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i gyrraedd targedau carbon sy’n gyfreithiol rwymol.

Nod SATC a’r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yw gwneud y mwyaf o ysgogiadau Llywodraeth Cymru drwy ganolbwyntio ar dai cymdeithasol lle ceir ysgogiadau ariannol sylweddol y gellir eu defnyddio i gyflymu gweithgarwch datgarboneiddio. Rydym wedi dechrau cyflwyno'r rhaglenni hyn mewn tai cymdeithasol a bydd y Sector Rhentu Preifat a'r Sectorau Perchen-feddianwyr yn dilyn. Bydd buddsoddi mewn cynlluniau ôl-osod er mwyn datgarboneiddio ar gyfer tai cymdeithasol yn cynhyrchu capasiti a sgiliau ac yn datblygu dulliau gweithredu y gall deiliadaethau eraill elwa ohonynt.

Rydym eisoes yn gweithio’n agos ar draws adrannau’r Llywodraeth i greu rhaglenni a pholisïau priodol ar gyfer deiliadaethau preifat sy’n ategu yn hytrach na dyblygu gweithgarwch mewn tai cymdeithasol. Mae hyn yn golygu cydweithio'n agos i ailfodelu'r rhaglen cartrefi clyd, a datblygu olynydd i ARBED sy'n dod i ben yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Rhaid ystyried buddsoddi yn SATC ac ôl-osod er mwyn optimeiddio ar gyfer holl dai Cymru yn erbyn cefndir o fanteision sylweddol i lesiant, arbedion cost mewn gwasanaethau a thwf economaidd lleol. Yn sgil buddsoddi mewn dros filiwn o gartrefi y degawd hwn, mae potensial i gynhyrchu enillion economaidd mawr yn ogystal â lleihau ein hallyriadau a lefelau tlodi tanwydd. Mae sicrhau bod yr 20,000 o dai cymdeithasol newydd yn y sector cymdeithasol yn rhai carbon isel yn ein galluogi i

sicrhau y bydd y cartrefi a adeiledir yn fwy caredig i'r hinsawdd, yn gynnes ac yn fforddiadwy ac yn helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Ers 2010 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021, mae mwy na £394 miliwn wedi'i fuddsoddi i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd, sydd o fudd i fwy na 67,100 o aelwydydd incwm isel. Mae'r gwelliannau hyn yn lleihau biliau ynni aelwydydd incwm isel o fwy na £300 y flwyddyn ar gyfartaledd.

Daeth contract Arbed 3 i ben ar 3 Tachwedd 2021. Ers mis Ebrill 2018, bydd Cynllun Arbed 3 wedi sicrhau gwelliannau effeithlonrwydd ynni domestig i fwy na 4000 o aelwydydd incwm isel. Bydd aelwydydd incwm isel yn parhau i elwa ar welliannau i effeithlonrwydd ynni'r cartref a gyflwynir drwy ein cynllun Nyth. Bydd hyn yn para tan y gwanwyn 2023. Rydym yn lansio ymgynghoriad ar y fersiwn nesaf o'r rhaglen Cartrefi Clyd. Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau fis Rhagfyr 2021 fan bellaf.

Yn ystod 2020-21, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £20.1 miliwn yn y cynllun Nyth, gyda 90% o'r gosodiadau wedi'u cwblhau gan osodwyr o Gymru, a 23 o brentisiaid yn gweithio ar y cynllun. Darparodd Nyth gyngor diduedd am ddim i 15,557 o aelwydydd a'u cyfeirio at amrywiaeth o wasanaethau cymorth. Derbyniodd 4,559 o'r 15,557 o aelwydydd becyn o fesurau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim fel system gwres canolog, boeler neu inswleiddio. Amcangyfrifir bod y gwelliannau hyn wedi arbed £305 ar gyfartaledd i aelwydydd ar eu biliau ynni blynyddol. Yn sgil gwiriadau ar hawl pobl i fudd-daliadau canfuwyd bod gan aelwydydd, ar gyfartaledd, hawl i £2,091 yn ychwanegol mewn budd-daliadau.

Yn ogystal â hynny, arweiniodd buddsoddiad cyfunol Llywodraeth Cymru ac Ewrop o £15.7 miliwn yng nghynllun Arbed yn 2020/21 at wella 1,032 o gartrefi drwy osod 5,050 o fesurau mewn 22 o gynlluniau mewn 12 ardal Awdurdod Lleol. Mae'r gwelliannau hyn yn arbed £327 ar gyfartaledd i bobl ar eu biliau ynni blynyddol.

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol sy'n gyfrifol am y polisi tlodi tanwydd (a'r cynllun i drechu tlodi tanwydd), a'r Gweinidog Newid Hinsawdd sy'n gyfrifol am gyllid effeithlonrwydd ynni domestig (sy'n ariannu'r Rhaglen Cartrefi Clyd).

**Atodiad A**

**Cyllideb Adnoddau – MEG Cyfiawnder Cymdeithasol fesul Maes Rhaglenni Gwariant (SPA), Cam Gweithredu a BEL**

| BEL | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Newidiadau £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|
| Cynhwysiant Ariannol | 23,702 | -3,500 | 20,202 |
| Cynhwysiant Digidol - Bron yn Arian Parod | 1,250 | | 1,250 |
| Cynhwysiant Digidol - Heb Fod yn Arian Parod | 149 | | 149 |
| Cefnogi Cymunedau | 1,483 | | 1,483 |
| Datblygu Rhyngwladol | 925 | | 925 |
| Partneriaethau Cymdeithasol | 526 | 280 | 806 |
| Incwm Sylfaenol | 0 | 5,000 | 5,000 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Cefnogi Cymunedau** | **28,035** | **1,780** | **29,815** |
| **Cyfanswm SPA Cefnogi Cymunedau** | **28,035** | **1,780** | **29,815** |
| Gwasanaethau Tân ac Achub - Bron yn Arian Parod | 8,405 | | 8,405 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub - Heb Fod yn Arian Parod | 20 | | 20 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub - Systemau Cyfathrebu | 3,915 | | 3,915 |
| Diogelwch Tân Cymunedol | 848 | | 848 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnerthedd** | **13,188** | **0** | **13,188** |
| **Cyfanswm SPA Cymunedau Mwy Diogel** | **13,188** | **0** | **13,188** |
| Y Comisiynydd Pobl Hŷn - Bron yn Arian Parod | 1,589 | | 1,589 |
| Y Comisiynydd Pobl Hŷn - Heb Fod yn Arian Parod | 0 | 9 | 9 |
| Y Comisiynydd Plant | 1,580 | | 1,580 |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | 1,509 | | 1,509 |
| Penodiadau Cyhoeddus | 0 | 375 | 375 |
| **Cyfanswm Cam Gweithredu'r Comisiynwyr** | **4,678** | **384** | **5,062** |
| **Cyfanswm SPA y Comisiynwyr** | **4,678** | **384** | **5,062** |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 6,825 | 1,050 | 7,875 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | **6,825** | **1,050** | **7,875** |
| **Cyfanswm SPA Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | **6,825** | **1,050** | **7,875** |
| Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol | 8,091 | 4,595 | 12,686 |
| Chwarae Teg | 360 | | 360 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Cydlyniant Cymunedol** | **8,451** | **4,595** | **13,046** |
| **Cyfanswm SPA Cydraddoldeb a Chynhwysiant** | **8,451** | **4,595** | **13,046** |
| Gwasanaethau Cynghori | 10,175 | | 10,175 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Gwasanaethau Cynghori** | **10,175** | **0** | **10,175** |
| **Cyfanswm SPA Rhaglenni Canolog** | **10,175** | **0** | **10,175** |
| Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli | 10,494 | -3,000 | 7,494 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Cymorth i'r Sector Gwirfoddol** | **10,494** | **-3,000** | **7,494** |
| **Cyfanswm SPA Cymorth i'r Sector Gwirfoddol** | **10,494** | **-3,000** | **7,494** |
| Cymorth Cymunedol a Diogelwch | 18,925 | 3,700 | 22,625 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Cymorth Cymunedol a Diogelwch** | **18,925** | **3,700** | **22,625** |
| **Cyfanswm SPA Swyddogion Cymorth Cymunedol** | **18,925** | **3,700** | **22,625** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid | 1,075 | | 1,075 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid** | **1,075** | **0** | **1,075** |
| **Cyfanswm SPA Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid** | **1,075** | **0** | **1,075** |
| **CYFANSWM CYLLIDEB ADNODDAU Y MEG CYFIAWNDER CYMDEITHASOL** | **101,846** | **8,509** | **110,355** |

## Cyllideb Gyfalaf

| BEL | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Newidiadau £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|
| Cefnogi Cymunedau | 1,000 | | 1,000 |
| Banc Cymunedol | 0 | 1,500 | 1,500 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Cefnogi Cymunedau** | **1,000** | **1,500** | **2,500** |
| **Cyfanswm SPA Cefnogi Cymunedau** | **1,000** | **1,500** | **2,500** |
| Gwasanaethau Tân ac Achub | 1,000 | | 1,000 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub - Systemau Cyfathrebu | 210 | | 210 |
| Diogelwch Tân Cymunedol | 670 | 230 | 900 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnerthedd** | **1,880** | **230** | **2,110** |
| **Cyfanswm SPA Cymunedau Mwy Diogel** | **1,880** | **230** | **2,110** |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 2,169 | 31 | 2,200 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | **2,169** | **31** | **2,200** |
| **Cyfanswm SPA Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | **2,169** | **31** | **2,200** |
| Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | 3,500 | 190 | 3,690 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** | **3,500** | **190** | **3,690** |
| **Cyfanswm SPA Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** | **3,500** | **190** | **3,690** |
| Y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol | 8,338 | -1,838 | 6,500 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Cyfleusterau Cymunedol** | **8,338** | **-1,838** | **6,500** |
| **Cyfanswm SPA Cyfleusterau Cymunedol** | **8,338** | **-1,838** | **6,500** |
| **CYFANSWM CYLLIDEB GYFALAF Y MEG CYFIAWNDER CYMDEITHASOL** | **16,887** | **113** | **17,000** |

## Atodiad B

## Cyllideb Adnoddau

| BEL | Cyllideb Atodol 1af 2021-22 (Mehefin 2021) £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £000 |
|---|---|---|
| Cynhwysiant Ariannol | 23,702 | 20,202 |
| Cynhwysiant Digidol - Bron yn Arian Parod | 1,250 | 1,250 |
| Cynhwysiant Digidol - Heb Fod yn Arian Parod | 149 | 149 |
| Cefnogi Cymunedau | 1,483 | 1,483 |
| Datblygu Rhyngwladol | 925 | 925 |
| Partneriaethau Cymdeithasol | 526 | 806 |
| Incwm Sylfaenol | 0 | 5,000 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Cefnogi Cymunedau** | **28,035** | **29,815** |
| Gwasanaethau Cynghori | 11,797 | 10,175 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Gwasanaethau Cynghori** | **11,797** | **10,175** |
| Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli | 10,494 | 7,494 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Cymorth i'r Sector Gwirfoddol** | **10,494** | **7,494** |
| **Cyfanswm SPA Cefnogi Cymunedau** | **50,326** | **47,484** |
| Gwasanaethau Tân ac Achub - Bron yn Arian Parod | 8,405 | 8,405 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub - Heb Fod yn Arian Parod | 20 | 20 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub - Systemau Cyfathrebu | 3,915 | 3,915 |
| Diogelwch Tân Cymunedol | 848 | 848 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnerthedd** | **13,188** | **13,188** |
| **Cyfanswm SPA Cymunedau Mwy Diogel** | **13,188** | **13,188** |
| Y Comisiynydd Pobl Hŷn - Bron yn Arian Parod | 1,589 | 1,589 |
| Y Comisiynydd Pobl Hŷn - Heb Fod yn Arian Parod | 0 | 9 |
| Y Comisiynydd Plant | 1,580 | 1,580 |
| Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru | 1,509 | 1,509 |
| Penodiadau Cyhoeddus | 0 | 375 |
| **Cyfanswm Cam Gweithredu'r Comisiynwyr** | **4,678** | **5,062** |
| **Cyfanswm SPA Comisiynwyr** | **4,678** | **5,062** |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 6,825 | 7,875 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | **6,825** | **7,875** |
| **Cyfanswm SPA Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | **6,825** | **7,875** |
| Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol | 8,091 | 12,686 |
| Chwarae Teg | 360 | 360 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Cydlyniant Cymunedol** | **8,451** | **13,046** |
| **Cyfanswm SPA Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol** | **8,451** | **13,046** |
| Cymorth Cymunedol a Diogelwch | 18,925 | 22,625 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Cymorth Cymunedol a Diogelwch** | **18,925** | **22,625** |
| **Cyfanswm SPA Swyddogion Cymorth Cymunedol** | **18,925** | **22,625** |
| Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid | 1,075 | 1,075 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid** | **1,075** | **1,075** |
| **Cyfanswm SPA Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid** | **1,075** | **1,075** |
| **CYFANSWM CYLLIDEB ADNODDAU Y MEG CYFIAWNDER CYMDEITHASOL** | **103,468** | **110,355** |

## Cyllideb Gyfalaf

| BEL | Cyllideb Atodol 1af 2021-22 (Mehefin 2021) £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £000 |
|---|---|---|
| Cefnogi Cymunedau | 1,000 | 1,000 |
| Banc Cymunedol | 0 | 1,500 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Cefnogi Cymunedau** | **1,000** | **2,500** |
| **Cyfanswm SPA Cefnogi Cymunedau** | **1,000** | **2,500** |
| Gwasanaethau Tân ac Achub | 1,000 | 1,000 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub - Systemau Cyfathrebu | 210 | 210 |
| Diogelwch Tân Cymunedol | 670 | 900 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnerthedd** | **1,880** | **2,110** |
| **Cyfanswm SPA Cymunedau Mwy Diogel** | **1,880** | **2,110** |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 2,169 | 2,200 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | **2,169** | **2,200** |
| **Cyfanswm SPA Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | **2,169** | **2,200** |
| Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | 3,500 | 3,690 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** | **3,500** | **3,690** |
| **Cyfanswm SPA Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** | **3,500** | **3,690** |
| Y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol | 8,338 | 6,500 |
| **Cyfanswm y Cam Gweithredu Cyfleusterau Cymunedol** | **8,338** | **6,500** |
| **Cyfanswm SPA Cyfleusterau Cymunedol** | **8,338** | **6,500** |
| **CYFANSWM CYLLIDEB GYFALAF Y MEG CYFIAWNDER CYMDEITHASOL** | **16,887** | **17,000** |

**Sylwadau i gefnogi Atodiad B**

## Cefnogi Cymunedau

**BEL NEWYDD Incwm Sylfaenol**

| Adnoddau | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 0 |
| Dyraniad 2022-23 | 5,000 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 5,000 |

Gwnaeth Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 ymrwymiad i dreialu'r defnydd o gynllun incwm sylfaenol yng Nghymru a fydd yn cynnwys carfan o bobl ifanc sy'n gadael gofal. Pwrpas y peilot yw sicrhau bod pobl ifanc sy'n rhan o'r peilot yn cael yr holl gymorth sydd ei angen arnynt er mwyn rhoi'r siawns orau posibl iddynt lwyddo mewn bywyd a sicrhau bod y broses o bontio o ofal yn well, yn haws ac yn fwy cadarnhaol.

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Ar gyfer y Llinell Wariant yn y Gyllideb Incwm Sylfaenol, mae dyraniad cyllideb o £5 miliwn wedi'i ddarparu yn 2022-23, £10 miliwn yn 2023-24 a £5 miliwn yn 2024-25.

**BEL 1694 Cynhwysiant Ariannol**

| Adnoddau | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 23,702 |
| Addasiadau ar gyfer Covid 2021-22 | -10,500 |
| Dyraniad 2022-23 | 7,000 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 20,202 |

| Cyfalaf | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 1,496 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 0 |

*Mae cyllidebau cyfalaf yn gyllidebau sylfaen sero.

Cyllideb Cyfalaf Trafodiadau Ariannol oedd y gyllideb Cynhwysiant Ariannol. Nid oes unrhyw Gyfalaf Trafodiadau Ariannol wedi'i ddyrannu fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, a bydd hyn yn cael ei ddyrannu yn y Gyllideb Derfynol.

Mae gan Gynhwysiant Ariannol ran hanfodol i'w chwarae o ran gwella llesiant pobl sy'n byw yng Nghymru drwy, er enghraifft, roi mynediad iddynt at gyllid fforddiadwy a mynediad at wasanaethau gwybodaeth a chyngor annibynnol y gellir ymddiried ynddynt. Mae'r rhain yn ganolog i roi cyfle teg mewn bywyd i bawb yng Nghymru, drwy eu helpu i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau gwybodus.

Mae grantiau a ariennir o fewn y BEL hon yn cynnwys cyllid y Gronfa Cymorth Dewisol ar gyfer Undebau Credyd a gweithgareddau cynhwysiant ariannol ar raddfa lai.

**Dyraniadau ar gyfer Covid 19 2021-22**
Dyrannwyd £10.5 miliwn o refeniw i'r Gronfa Cymorth Dewisol fel rhan o Gyllideb Derfynol 2021-22 i gydnabod y pwysau yn ystod 6 mis cyntaf y flwyddyn ariannol ac i barhau â'r llacio presennol ar reolau'r Gronfa Cymorth Dewisol i ymateb i effeithiau COVID-19 ar aelwydydd sy'n dioddef caledi ariannol eithafol, ochr yn ochr â mesurau sydd â'r nod o wneud y mwyaf

o incwm aelwydydd a gwella gwydnwch ariannol. Mae dyraniadau pellach yn ystod y flwyddyn wedi'u darparu ers y gyllideb atodol gyntaf a byddant yn cael eu ffurfioli fel rhan o ail gyllideb atodol 2021-22.

**Dyraniadau 2021-22**
£1.5 miliwn o gyfalaf trafodion ariannol i gefnogi undebau credyd a chynlluniau cynhwysiant ariannol eraill (gostyngiad o £4,000 hefyd yn y gyllideb i adlewyrchu ad-daliadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol)

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Mae £7 miliwn wedi'i ddyrannu i'r Gronfa Cymorth Dewisol fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2022-23 a fydd yn cael ei ddefnyddio fel llinell sylfaen ar y blynyddoedd i ddod.

Swm y Cyfalaf Trafodiadau Ariannol ar gyfer 21-22 oedd £1.496 miliwn, ni fydd unrhyw Gyfalaf Trafodiadau Ariannol yn cael ei ddyrannu yn y Gyllideb Ddrafft. Mae hwn i'w ddyrannu yn y Gyllideb Derfynol.

**BEL 1084 Cynhwysiant Digidol**

| Adnoddau – Bron yn Arian Parod | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 1,250 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 1,250 |

| Adnoddau – Heb fod yn Arian Parod | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 149 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 149 |

Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant yw rhaglen cynhwysiant digidol gaffaeledig Llywodraeth Cymru, a ddechreuodd ar 1 Gorffennaf 2019 gyda chyllideb flynyddol o £2 filiwn (a ariennir ar y cyd gan y maes iechyd drwy drosglwyddiad o'r gyllideb yn ystod y flwyddyn). Mae'n gweithio gyda sefydliadau o bob sector a all helpu i gyrraedd pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar wella galluoedd digidol dinasyddion a staff iechyd a gofal cymdeithasol, gan ganiatáu i fwy o bobl ddod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Mae'r contract yn rhedeg o 1 Gorffennaf 2019 tan 30 Mehefin 2022 gydag opsiwn i'w ymestyn am 3 blynedd arall yn amodol ar gytundeb cyllido.

**2021-22**
Cafwyd cynnydd o £149,000 yn y gyllideb refeniw (nad yw'n arian parod) mewn perthynas â dibrisiant yn erbyn y Cynllun Benthyciad ar gyfer Dyfais.

Bydd cyllideb 2021-22 yn cynyddu £1 filiwn yng Nghyllideb Atodol Derfynol 2021-22 yn dilyn trosglwyddiad o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**BEL 1086 Cefnogi Cymunedau**

| Adnoddau | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 1,483 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 1,483 |

| Cyfalaf | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 1,000 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 1,000 |

*Mae cyllidebau cyfalaf yn gyllidebau sylfaen sero

Mae'r cyllid yn cwmpasu grantiau prosiect canlyniadau a rennir a gweithgareddau sy'n cefnogi polisi cymunedau. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hefyd yn cynnwys cyllideb fach o £118,000 ar gyfer Tlodi Plant. Yn 2020-21 a 2021-22, derbyniodd y Llinell Wariant yn y Gyllideb hefyd gyllid y Gronfa Bontio Ewropeaidd o £2 filiwn i drechu tlodi bwyd (£1 filiwn o refeniw ac £1 filiwn o gyfalaf).

**Dyraniadau 2021-22**
£1 filiwn o refeniw ac £1 filiwn o gyfalaf – Cronfa Bontio Ewropeaidd ar gyfer Trechu Tlodi ac Ansicrwydd Bwyd (mae hyn yn parhau â’r dyraniad a wnaed yn 20-21)

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Mae Cefnogi Cymunedau wedi cael £1 filiwn o gyfalaf ar gyfer pob blwyddyn o 2022-23 i 2024-25 yn ogystal â £3 miliwn o refeniw yn 2024-25 tuag at y Strategaeth Gwrthdlodi. Bydd y BEL yn parhau i ddarparu £1 filiwn o gyllid refeniw i gefnogi banciau bwyd.

**BEL 7074 Datblygu Rhyngwladol**

| Adnoddau | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 925 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 925 |

Mae'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol ehangach (sydd o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu) wedi cytuno i ddarparu cyllid ychwanegol i raglen Cymru ac Affrica yn y gorffennol - at ddibenion penodol yn ymwneud â chyflawni'r Strategaeth Ryngwladol. Yn fwyaf arwyddocaol mae hynny wedi cynnwys cyllid ar gyfer Maint Cymru tuag at y rhaglen plannu coed - gyda £350,000 wedi’i gytuno ar gyfer y flwyddyn ariannol hon (2021/22) a £250,000 wedi’i gytuno ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (2022/23).

**BEL 1693 Partneriaeth Gymdeithasol**

| Adnoddau | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 526 |
| Dyraniad 2022-23 | 280 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 806 |

Bydd y gyllideb hon yn cefnogi ac yn hwyluso gwaith ar draws y Llywodraeth a chyda'n Partneriaid Cymdeithasol i gyflawni agenda Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg Llywodraeth Cymru.  Bydd yn ein galluogi i gynyddu ein gwaith gyda phartneriaid cymdeithasol i hyrwyddo buddion cyflogwyr ac Undebau Llafur yn gweithio fel partneriaid mewn ysbryd o gydweithio, ymrwymiad a pharch tuag at y naill a'r llall.

Bydd yn cefnogi gwaith i gryfhau’r system partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru a gwella’r capasiti a’r gallu ar y cyd i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol i hybu llesiant economaidd a chymdeithasol a gwella’r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus. Yn ogystal, bydd y gyllideb yn cefnogi ein gweithgareddau wrth ddefnyddio pob cyfrwng sydd gennym i helpu i wireddu canlyniadau gwaith teg a gwella bywydau gwaith er gwell.

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Darperir dyraniad cyllideb ar gyfer y Bartneriaeth Gymdeithasol o £0.28 miliwn yn 2022-23, £0.435 miliwn yn 2023-24 2024-25.

**BEL NEWYDD Banc Cymunedol**

| Cyfalaf | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 0 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 1,500 |

*Mae cyllidebau cyfalaf yn gyllidebau sylfaen sero

Yn y Rhaglen Lywodraethu ceir ymrwymiad allweddol i gefnogi creu Banc Cymunedol i Gymru (Banc Cambria). Nod y Banc Cymunedol yw gwella mynediad ac ansawdd gwasanaethau bancio dwyieithog amlsianel lleol; hwyluso datblygiad economaidd lleol; atal draenio arian parod ac ailgylchu arian parod o fewn cymunedau lleol. Mae'n cefnogi strategaethau cynhwysiant ariannol a digidol.

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Dyrannwyd £1.5 miliwn o gyfalaf i’r Banc Cymunedol ar gyfer y blynyddoedd 2022-23 a 2023-24, gydag £1.75 miliwn wedi’i ddyrannu ar gyfer 2024-25.

## Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnerthedd

**BEL 1265 Gwasanaethau Tân ac Achub**

| Adnoddau – Bron yn Arian Parod | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 8,405 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 8,405 |

| Adnoddau – Heb fod yn Arian Parod | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 20 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 20 |

| Cyfalaf | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 1,000 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 1,000 |

*Mae cyllidebau cyfalaf yn gyllidebau sylfaen sero

Mae'r gyllideb refeniw yn darparu cyllid i'r Awdurdodau Tân ac Achub i ddarparu Cydnerthedd Cenedlaethol er mwyn ymateb i drychinebau cenedlaethol mawr; cyngor proffesiynol, cyfreithiol ac actiwaraidd i Weinidogion Cymru ar faterion yn ymwneud â thân, gan gynnwys yn benodol pensiynau diffoddwyr tân; a Safleoedd y Goron a chadeirydd Bwrdd Cynghori'r Cynllun Pensiwn.
Darperir cyllid refeniw hefyd i dalu cost y cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn cyflogwyr sy’n deillio o benderfyniad gan Drysorlys EM i addasu’r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir ar gyfer prisio cynlluniau pensiwn yn 2018.

Mae'r gyllideb gyfalaf yn darparu cyllid ar gyfer Cydnerthedd Cenedlaethol: costau caffael, cynnal a chadw ac adnewyddu peiriannau ac offer y mae Awdurdodau Tân ac Achub yn eu defnyddio i ymateb i ddigwyddiadau ar raddfa genedlaethol.

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Mae £1 filiwn o gyfalaf wedi'i ddyrannu i'r Gwasanaethau Tân ac Achub ar gyfer 2022-23, £1.5 miliwn ar gyfer 2023-24 ac £1 filiwn ar gyfer 2024-25.

Bydd cyllideb nad yw'n arian parod yn cael ei throsglwyddo i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn 2022-23 i gyd-fynd â'r gyllideb ar gyfer yr asedau (cydnerthedd).

**BEL 1697 Gwasanaethau Tân ac Achub - Systemau Cyfathrebu**

| Adnoddau | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 3,915 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 3,915 |

| Cyfalaf | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 210 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 210 |

*Mae cyllidebau cyfalaf yn gyllidebau sylfaen sero

Mae'r gyllideb refeniw yn darparu cyllid i'r Awdurdodau Tân ac Achub i ddarparu Firelink, system gyfathrebu gadarn a diogel ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub sy'n gallu rhyngweithredu â systemau'r gwasanaethau brys eraill a'r system sy'n eu disodli, y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys. Mae'r gyllideb gyfalaf yn darparu cyllid ar gyfer contract System Radio Digidol Firelink.

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Dyrannwyd £0.21 miliwn o gyfalaf ar gyfer Systemau Cyfathrebu'r Gwasanaethau Tân ac Achub ar gyfer pob blwyddyn o 2022-23 i 2024-25.

**BEL 1698 Diogelwch Tân Cymunedol**

| Adnoddau | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 848 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 848 |

| Cyfalaf | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 670 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 900 |

*Mae cyllidebau cyfalaf yn gyllidebau sylfaen sero

Cyllid refeniw i'r Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer rhaglenni Diogelwch Tân Cymunedol sy'n ymwneud â lleihau tanau bwriadol, ymgysylltu â phobl ifanc ac ymyriadau gyda phobl ifanc (gan gynnwys prosiect Phoenix), diogelwch tân yn y cartref ac arloesi ac arallgyfeirio. Ceir cyllideb fach o £30,000 i ddarparu gwasanaethau a chymorth i gymuned y Lluoedd Arfog gan gynnwys Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog i Gymru.

Mae cyllid cyfalaf yn ategu'r gyllideb Refeniw Diogelwch Tân Cymunedol ac yn talu cost cyfarpar diogelwch tân domestig y mae Awdurdodau Tân ac Achub yn ei osod yn rhad ac am ddim. Yn y gorffennol bu'r pwyslais yn bennaf ar ddosbarthu larymau mwg i gymunedau'n gyffredinol; ond mae bellach yn ymwneud lawer mwy â darparu cyfarpar mwy

helaeth a chymhleth i bobl sy'n wynebu'r perygl mwyaf o dân (e.e. pobl eiddil oedrannus, y rhai â nam ar y synhwyrau neu symudedd, a rhieni sengl â phlant ifanc).

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Mae £0.9 miliwn o gyfalaf wedi'i ddyrannu i Ddiogelwch Tân Cymunedol ar gyfer pob blwyddyn o 2022-23 i 2024-25.

**BEL 1699 Pensiynau'r Gwasanaeth Tân**

| AME | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 27,915 |
| Dyraniad 2022-23 | 148 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 28,063 |

Yn unigryw, mae pensiynau diffoddwyr tân wedi'u datganoli. Ceir dau gynllun pensiwn caeedig (yn dyddio o 1992 a 2007) a'r cynllun presennol a sefydlwyd yn 2015, ynghyd â threfniadau ar wahân ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn (ar alwad). Ym mhob achos, telir buddion y cynllun yn uniongyrchol o gyfraniadau arian parod bob blwyddyn, yn hytrach nag o'r enillion ar gronfeydd a fuddsoddwyd. Mae'r gyllideb hon yn cwmpasu'r diffyg bob blwyddyn rhwng cyfraniadau'r cyflogwr a'r gweithiwr ar y naill law, a buddion sy'n daladwy i aelodau cynllun sydd wedi ymddeol ar y llall. Gan mai cyllid AME yw hwn, ni ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall.

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Mae £28.063 miliwn o AME wedi'i ddyrannu i Bensiynau'r Gwasanaeth Tân ar gyfer 2022-23 a £26.045 miliwn ar gyfer 2023-24 a 2024-25.

## Comisiynwyr

**BEL 0662 Y Comisiynydd Pobl Hŷn**

| Adnoddau – Bron yn Arian Parod | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 1,589 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 1,589 |

| Adnoddau – Heb fod yn Arian Parod | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 0 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 9 |

Mae strategaeth y Comisiynydd ar gyfer 2019-22 yn canolbwyntio ar dri nod allweddol:
1. Rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran.
2. Atal cam-drin pobl hŷn.
3. Galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd wedi gorfod newid ei blaenoriaethau rhyw fymryn er mwyn canolbwyntio ar effaith Covid-19 ar bobl hŷn. Mae hawliau wedi bod ar frig yr agenda yn enwedig o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal.

*Bellach, mae Diogelu a Hybu Hawliau Pobl Hŷn* wedi'u hychwanegu at ei blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2021-22, ochr yn ochr â'r tri a gyhoeddwyd yn ei Strategaeth ar gyfer 2019-22.

Wrth edrych i'r dyfodol (2022-23) ei nod yw canolbwyntio ar sicrhau nad yw pobl hŷn yn cael eu gadael ar ôl wrth i Gymru adfer o’r pandemig. Bydd cyfrannu at ymchwiliad Covid-19 yn allweddol i hyn.

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Mae £9,000 o adnoddau nad ydynt yn arian parod wedi'u dyrannu i'r Comisiynydd Pobl Hŷn fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2022-23 a dyma fydd y llinell sylfaen ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

**BEL 480 Y Comisiynydd Plant**

| Adnoddau | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 1,580 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 1,580 |

Mae Comisiynydd Plant Cymru, a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, yn sefydliad hawliau plant annibynnol. Pennir y cylch gwaith yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, a ddiwygiodd Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae’n rôl statudol, sydd wedi’i phennu mewn deddfwriaeth, ac mae’n ofynnol i Lywodraeth Cymru ei hariannu. Mae’r gyllideb yn cynnwys costau rhedeg swyddfa’r Comisiynydd a’r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

**BEL 6400 Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru**

| Adnoddau | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 1,509 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 1,509 |

Rôl y Comisiynydd yw bod yn warchodwr cenedlaethau’r dyfodol. Mae hyn yn golygu helpu cyrff cyhoeddus a’r rhai sy’n llunio polisïau yng Nghymru i feddwl am yr effaith hirdymor y mae eu penderfyniadau yn ei chael.

Mae cyfran fawr o gyllideb Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru yn cyfateb i gostau staff ac mae’r gweddill wedi’i neilltuo ar gyfer costau sy’n ymwneud â chyfleusterau, prosiectau, hyfforddiant staff, archwiliadau ac arian wrth gefn fel y nodir yn ei hamcangyfrif statudol ar gyfer 2021-22.

**BEL NEWYDD Penodiadau Cyhoeddus**

| Adnoddau | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 0 |
| Dyraniad 2022-23 | 375 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 375 |

Rydym wedi ymrwymo i archwilio gyda llywodraeth leol ac undebau llafur yng Nghymru sut i wneud cynnydd ar ein hymrwymiad hirsefydlog i wella tegwch o ran trefniadau cyflog, ond mae hyn oll yn wyneb setliad ariannol heriol, yn enwedig er mwyn mynd i’r afael ag effaith COVID-19 ar ein gwasanaeth iechyd a'n hagenda gymdeithasol flaengar.

Fe wnaethom hefyd ymrwymo i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn tâl ar draws gwahanol gyrff cyhoeddus. Rwyf eisoes wedi dechrau ymarfer i sicrhau cyflog cyfartal ar draws

graddau cymharol debyg mewn gwahanol gyrff cyhoeddus, ac mae cwmpas y gwaith hwn wedi cynnwys Llywodraeth Cymru, Cyrff Cyhoeddus, y GIG, Awdurdodau Lleol a chwmnïau Llywodraeth Cymru megis Trafnidiaeth Cymru a Maes Awyr Caerdydd. Fodd bynnag, bydd angen dod o hyd i unrhyw gyllid o'r setliadau presennol.

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Mae cyllideb o £0.375 miliwn ar gyfer 2022-23 a £0.6 miliwn ar gyfer pob blwyddyn o 2023-24 i 2024-25 wedi'i dyrannu ar gyfer y BEL Penodiadau Cyhoeddus.

## Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

**BEL 0541 Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

| Adnoddau | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 6,825 |
| Dyraniad 2022-23 | 1,050 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 7,875 |

| Cyfalaf | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 2,169 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 2,200 |

*Mae cyllidebau cyfalaf yn gyllidebau sylfaen sero

Mae’r Grant Refeniw Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig) yn bodloni gofyniad statudol Llywodraeth Cymru o ran cyflawni dibenion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 i ddileu pob math o Drais yn erbyn Menywod. Cefnogir hyn gan Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-2026.

Mae'r grant cyfalaf yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Ddeddf. Ei brif ddiben yw caffael neu gynnal/uwchraddio asedau sefydlog megis adeiladau a chyfarpar ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n gweithio yn y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Grant wedi cefnogi prosiectau fel prynu adeiladau i gefnogi gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; cyfarpar i wella diogelwch; gwelliannau i adeiladau (e.e. mynediad i bobl anabl; mannau aros penodol i wahanu dioddefwyr a chyflawnwyr; gwaith atgyweirio ac adnewyddu cyffredinol); prynu iPads i weithwyr cymorth gyrraedd dioddefwyr mewn ardaloedd gwledig; addasiadau i lochesi cymunedol i greu llety symud ymlaen preifat; a sefydlu 'Siopau Un Stop' ledled Cymru.

**Dyraniadau 2021-22**
Gwnaethpwyd dyraniad refeniw pellach o £1.575 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn i gynnal cyllidebau ar lefelau 20-21.

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Mae Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi cael £1.050 miliwn o refeniw ar gyfer pob blwyddyn o 2022-23 i 2024-25 a £2.2 miliwn o gyfalaf ar gyfer y blynyddoedd 2022-23 i 2024-25.

## Cydlyniant Cymunedol

**BEL 7060 Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol**

| Adnoddau | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 8,091 |
| Dyraniad 2022-23 | 4,595 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 12,686 |

Mae Covid-19 wedi cael effaith anghyfartal ar bobl yn ein cymunedau. Pobl anabl, pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl LGBTQI+, menywod a'r rhai sy'n wynebu mwy o anfantais economaidd-gymdeithasol sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf. Er mwyn sicrhau adferiad tecach a helpu i atal anghydraddoldeb rhag ymwreiddio ymhellach, rhaid gweithredu ac mae'r dyraniadau'n adlewyrchu'r angen i wneud cynnydd yn hyn o beth.

Bydd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a gweithgareddau eraill yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru, yn hyrwyddo a chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol, yn gwella canlyniadau i bobl a chyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal.

Cyflawnir hyn drwy ariannu camau gweithredu sy'n deillio o'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, y Tasglu Hawliau Anabledd, y Cynllun Gweithredu LGBTQI+ ac ymrwymiadau i ymgorffori Urddas Mislif ymhellach. Ceir ymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth i ymgorffori Confensiynau penodol y Cenhedloedd Unedig yng Nghyfraith Cymru yn ogystal â chymryd camau penodol mewn perthynas â deddfwriaeth ynghylch Gwahardd Therapi Trosi a datganoli'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd.

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Dyrannwyd £4.595 i'r BEL 7060 Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol ar gyfer 2022-23, £9.541 miliwn yn 2023-24 a £12.741 miliwn yn 2024-25 tuag at y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a Gweithgareddau Eraill.

**BEL 6664 Chwarae Teg**

| Adnoddau | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 360 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 360 |

Caiff y cyllid craidd ei reoli gan y grŵp Cyflogadwyedd a Sgiliau, gan fod y ddarpariaeth a wneir yn cyd-fynd â Chymorth Cyflogadwyedd.

Bydd y gyllideb yn rhoi ffocws newydd i'w gwaith yn 2021-22 fel yr amlygwyd o ganlyniad i COVID gan ganolbwyntio ar:

- Dangynrychiolaeth o fenywod Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a darparu argymhellion ar gyfer ymgysylltu â nhw;
- Ymchwil pellach i sut y gall cyflogwyr ymgysylltu i gyflogi gweithwyr anabl a'r manteision i'r cwmni;
- Effaith y pandemig Covid-19 ar fenywod yng Nghymru, gan edrych ar yr heriau uniongyrchol a hirdymor ar ymgysylltiad menywod â'r economi.
- Ymgysylltu â'r rhaglenni Cyflogadwyedd newydd gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ymgysylltu ag unigolion sy'n ymuno â'r rhaglenni.

## Gwasanaethau Eirioli

| BEL 5334 Gwasanaethau Cynghori |
|---|

| Adnoddau | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 11,797 |
| Dyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | -1,622 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 10,175 |

Mae'r ymrwymiadau'n cynnwys grant ar gyfer y Gronfa Gynghori Sengl ac ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor, Rhwydweithiau Cyngor Cenedlaethol a Rhanbarthol a chostau gweinyddol/cymorth.

Mae'r BEL hefyd yn cynnwys trosglwyddiad i mewn i'r gyllideb o £174,000 mewn perthynas â Statws Preswylydd Sefydlog a Phrosiect Mewnfudo y Gronfa Bontio Ewropeaidd. Mae Llywodraeth Cymru wedi contractio Newfields Law i ddarparu gwasanaeth cyngor ar fewnfudo fel y gall dinasyddion yr UE yng Nghymru gael mynediad at gyngor a chymorth am ddim i wneud cais am Statws Preswylydd Sefydlog yr UE (EUSS).

**Dyraniadau 2021-22 a wnaed yn y gyllideb atodol gyntaf**
Refeniw ychwanegol o £1.622 miliwn mewn perthynas â'r Ardoll Ariannol ar gyfer Cyngor ar Ddyled. Gwneir dyraniadau ar sail flynyddol anghylchol, a disgwylir dyraniadau pellach yn ystod y flwyddyn yn 2022-23.

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Dyrannwyd £1.674 miliwn i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Gwasanaethau Cynghori ar gyfer 2023-24 i 2024-25 i gefnogi ehangu'r Gronfa Gynghori Sengl a phrosiectau cynyddu incwm.

## Cymorth i'r Sector Gwirfoddol

| BEL 1695 Cymorth i'r Sector Gwirfoddol |
|---|

| Adnoddau | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 10,494 |
| Addasiadau ar gyfer Covid 2021-22 | -3,000 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 7,494 |

Mae Cynllun statudol y Trydydd Sector (2014) yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo buddiannau sefydliadau gwirfoddol perthnasol. Mae Llywodraeth Cymru, drwy Gynllun y Trydydd Sector, yn cefnogi'r Seilwaith Trydydd Sector sy'n cynrychioli, yn hyrwyddo, yn cefnogi ac yn atebol i'r Trydydd Sector ar bob lefel.

Yn ystod 20-21, darparwyd cymorth ychwanegol sylweddol i'r Trydydd Sector i gefnogi ei ymateb ac ymateb ei wirfoddolwyr i'r pandemig. Cytunwyd ar gyllid ychwanegol o £3 miliwn fel rhan o Gyllideb Ddrafft 21-22 i barhau â'r cymorth ariannol hwn yn ystod chwarter cyntaf 21-22.

**Dyraniadau ar gyfer Covid 19 2021-22**
£3 miliwn o refeniw i barhau i gefnogi Cronfa Ymateb y Trydydd Sector am chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Mae dyraniadau pellach wedi'u gwneud yn dilyn cyhoeddi'r gyllideb atodol gyntaf.

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Mae £1.8 miliwn wedi'i ddyrannu i Linell Wariant Cyllideb Cefnogi'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli ar gyfer 2024-25.

## Cymorth Cymunedol a Diogelwch

**BEL 0830 Cymorth Cymunedol a Diogelwch**

| Adnoddau | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 18,925 |
| Dyraniad 2022-23 | 3,700 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 22,625 |

Un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu fu cynyddu nifer y Swyddogion Cymorth Cymunedol ledled Cymru o 500 i 600. Cyfrifwyd bod costau ychwanegol recriwtio 100 o swyddogion ychwanegol yn 2021-22 yn £3.7 miliwn.

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Dyrannwyd £3.7 miliwn i'r BEL Cymorth Cymunedol a Diogelwch ar gyfer y blynyddoedd 2023-23 i 2024-25 tuag at ariannu 100 ychwanegol o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

## Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid

**BEL 1267 Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid**

| Adnoddau | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 1,075 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 1,075 |

Mae’r Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid yn rhan o ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i fynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli plismona a chyfiawnder. Mae’r gwaith parhaus o gyflawni’r Glasbrintiau yn darparu’r sylfaen ar gyfer cryfhau a gwella’r system gyfiawnder yng Nghymru, gan sicrhau ei bod yn diwallu anghenion unigryw pobl Cymru.
Mae’r Glasbrintiau’n nodi dull unigryw o ymdrin â gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru, un sy’n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal, gan geisio dargyfeirio pobl oddi wrth droseddu yn y lle cyntaf, ond hefyd darparu cymorth cyfannol ac adsefydlu i’r rhai sy’n llithro drwy’r rhwyd.

## Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

**BEL 1008 Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

| Cyfalaf | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 3,500 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 3,690 |

*Mae cyllidebau cyfalaf yn gyllidebau sylfaen sero

Mae’r gyllideb yn cynnwys datblygu safleoedd newydd, estyniadau i safleoedd a phrosiectau adnewyddu ar safleoedd sy’n eiddo i awdurdodau lleol ledled Cymru.  Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu o bryd i'w gilydd anghenion

llety Sipsiwn a Theithwyr sy’n “preswylio yn ei ardal neu'n cyrchu yno” ac i ddiwallu’r anghenion hynny a nodwyd.

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Dyrannwyd £3.7 miliwn i Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer 2022-23, £3.2 miliwn ar gyfer 23-24 a £3.4 miliwn ar gyfer 2024-25.

## Cyfleusterau Cymunedol

**BEL 1372 Y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol**

| Cyfalaf | £'000 |
|---|---:|
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 | 10,318 |
| Cyllideb Ddrafft 2022-23 | 6,500 |

*Mae cyllidebau cyfalaf yn gyllidebau sylfaen sero

Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn cynnig grantiau cyfalaf ar ddwy lefel; hyd at £25,000 a hyd at £250,000. Rhaid defnyddio grantiau i ddatblygu cyfleusterau cymunedol sy'n darparu cyfleoedd i bobl leol wella eu bywydau o ddydd i ddydd.

Gwnaed dyraniad cyfalaf cyffredinol o £3.5 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 i gefnogi’r gwaith o gyflawni prosiectau ychwanegol sydd ar y gweill. Gwnaed dyraniad o £2 filiwn o gyfalaf trafodion ariannol hefyd i gefnogi’r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol, a gwrthbwysir y gyllideb gan ad-daliad wedi’i drefnu o £20,000 mewn perthynas â’r cynllun.

**Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-25**
Dyrannwyd £6.5 miliwn o gyfalaf i BEL Y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol ar gyfer y blynyddoedd 2022-23 i 2024-25.

Swm y Cyfalaf Trafodiadau Ariannol ar gyfer 21-22 oedd £1.980 miliwn, ni fydd unrhyw Gyfalaf Trafodiadau Ariannol yn cael ei ddyrannu yn y Gyllideb Ddrafft. Mae hwn i'w ddyrannu yn y Gyllideb Derfynol.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

26 Tachwedd 2021

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Tachwedd ar ran y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Fel y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, rwy'n eiriolwr brwd dros ddiogelu hawliau pob dinesydd. Drwy gefnogi dinasyddion i gael statws preswylydd, pan fyddant yn dymuno gwneud hynny, rydym yn sicrhau ein bod yn parhau i ddiogelu'r hawliau hynny ar gyfer y dyfodol. Rwy'n croesawu ymrwymiad y Pwyllgor i fonitro'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) yng Nghymru a byddaf yn gwneud popeth y gallaf i gefnogi'r gwaith hwnnw.

Rwy'n nodi'r meysydd yr ydych chi wedi gofyn am ddiweddariad yn eu cylch, yn seiliedig ar amcanion y Grŵp Cydgysylltu EUSS, ac rwyf wedi darparu gwybodaeth yn erbyn pob pwynt isod.

<u>Rhannu adroddiadau ar waith y sefydliadau cefnogi, gan gynnwys o ran arferion gorau a materion sy'n gysylltiedig ag EUSS</u>

Mae'r Grŵp Cydgysylltu EUSS, sy'n cael ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys nifer o bartneriaid allanol sy'n cefnogi dinasyddion gyda'u ceisiadau i'r EUSS. Mae'r aelodau yn cynnwys Newfields Law, Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru, Cyngor ar Bopeth Cymru, Migrant Help, Mind Casnewydd, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, TGP

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Settled, TUC Cymru, Cymdeithas Frenhinol Pobl Fyddar a Public Law Project.

Mae'r Grŵp yn cyfarfod bob deufis ac ym mhob cyfarfod mae rhanddeiliaid yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith y maent wedi'i wneud hyd yma a'r gwaith sydd wedi'i gynllunio ganddynt ar gyfer y dyfodol. Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 22 Ionawr 2022 ac rwy'n bwriadu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw. Byddaf yn codi eich cais felly i adroddiadau gael eu rhannu a rhoddaf wybod ichi am y canlyniad. Rhannu cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol fyddwn i'n ei gynnig, oherwydd bydd y rhain yn darparu braslun o'r holl ddiweddariadau a roddir.

<u>Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o EUSS a sut y cyfranogir yn y cynllun yng Nghymru. Sicrhau bod dinasyddion yn gallu manteisio i'r eithaf ar EUSS yng Nghymru drwy ymgyrch gyhoeddusrwydd wedi'i thargedu</u>

Mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn parhau i gyfleu negeseuon ynghylch EUSS. Yn ddiweddar, cafodd lleoliadau gofal iechyd, megis canolfannau brechu a phractisau cyffredinol lleol, eu targedu gan Lywodraeth Cymru er mwyn rhannu negeseuon, mewn nifer o ieithoedd Ewropeaidd, ynghylch EUSS ac i barhau i annog pobl i ymgeisio er bod y dyddiad cau wedi mynd heibio. Ysgrifennais yr wythnos ddiwethaf hefyd at gyd-aelodau'r Cabinet i ofyn am eu cefnogaeth barhaus yn y maes hwn.

Yn fwy diweddar, rwyf wedi cytuno ar gyllid i gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth ddigidol arall, a fydd yn rhedeg dros y misoedd nesaf. Bydd yr ymgyrch hon yn canolbwyntio ar gyfleu negeseuon ynghylch ceisiadau hwyr, ceisiadau ar gyfer plant ac aelodau eraill o'r teulu y gofelir amdanynt, ceisiadau ar gyfer aelodau o'r teulu sy'n ymuno a bydd yn annog dinasyddion yr UE i ddiweddaru eu statws digidol ar-lein.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ddiweddaru ei phlatfform 'Paratoi Cymru' gyda negeseuon a gwybodaeth allweddol am EUSS, ar sail barhaus.

<u>Sicrhau bod gwasanaethau cynghori EUSS cyson ar gael yng Nghymru, a bod y lefel gywir o gymorth wedi'i thargedu at y bobl gywir.</u>

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd Gwasanaethau Cynghori ar Fewnfudo i Ddinasyddion yr UE yn cael eu hymestyn tan fis Mawrth 2022. Bydd yr estyniad hwn yn sicrhau bod dinasyddion a fethodd y dyddiad cau ar gyfer EUSS a'r rhai y mae angen iddynt wneud cais am statws preswylydd sefydlog, wedi iddynt gael statws preswylydd cyn-sefydlog cyn hyn, yn parhau i gael mynediad i'r cymorth y gallai fod ei angen arnynt. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi y bydd yn parhau â'i chyllid grant i sefydliadau sy'n cefnogi'r EUSS tan fis Mawrth 2022.

Mae'r cwmni sy'n arbenigo mewn cyfraith fewnfudo, Newfields Law, yn un o'r sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r canlynol:

- Gwybodaeth a chymorth, gan gynnwys cyngor ar fewnfudo, i helpu gwladolion yr Undeb Ewropeaidd/yr Ardal Economaidd Ewropeaidd/y Swistir ac aelodau o'u teuluoedd i ddeall sut y mae'r newidiadau i'r rheolau mewnfudo wedi i'r DU ymadael â'r UE yn effeithio arnynt hwy
- Codi ymwybyddiaeth a gwell dealltwriaeth o hawliau a gofynion sy'n cael eu heffeithio gan statws mewnfudo unigolyn
- Rhoi pwyslais penodol ar gefnogi pobl sy'n agored i niwed, y rheini sydd ag anghenion cymhleth a'r rheini sydd mewn mwy o berygl o fethu â chael statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog

- Darparu gwasanaeth cynghori hyd at 31 Mawrth 2022 a galluogi pobl i gael cyngor ar adeg ac mewn lle, yn ogystal â thrwy ddulliau, sy'n diwallu eu hanghenion hwy orau
- Cefnogi unigolion gydag hawl i apelio yn erbyn unrhyw ganlyniad a roddir gan y Swyddfa Gartref

Nodi unrhyw fylchau yn y darpariaethau cyfredol a gefnogir, a chynorthwyo Llywodraeth / Swyddfa Gartref Cymru i ddod o hyd i atebion i oresgyn unrhyw faterion.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid allanol a Llywodraethau eraill i fonitro unrhyw bryderon neu faterion parhaus mewn perthynas â'r EUSS. Mae cyfarfodydd y Grŵp Cydgysylltu EUSS yn rhoi llwyfan i'r holl randdeiliaid fynegi pryderon a thrafod mesurau lliniaru mewn modd cydweithredol.

Mae swyddogion polisi Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i gyfarfod â Llywodraeth y DU bob pythefnos i drafod datblygiadau EUSS, yr ymdrechion cyfathrebu sy'n parhau ac i godi unrhyw bryderon ac ymholiadau.

Fel y soniais yn gynharach, mae cyfarfod nesaf y Grŵp Cydgysylltu EUSS wedi'i drefnu ar gyfer 22 Ionawr ac yn y cyfarfod hwnnw byddaf yn gofyn am farn yr aelodau ar y modd y darperir diweddariadau i'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Byddaf yn ysgrifennu i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod hwnnw.

Jane

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

At: Gadeiryddion Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor Chydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd

**Trwy e-bost yn unig**

Dyddiad: 14 Ionawr

Annwyl Gadeirydd

**Craffu ar y Gyllideb 2022-23**

Ysgrifennaf ynghylch craffu parhaus eich Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23.

Ar hyd fy nghyfnod fel Comisiynydd Plant Cymru rwyf wedi craffu'n ofalus ar gynigion y gyllideb o ran y ddarpariaeth i blant a'r parch at hawliau plant. Yn flaenorol rwyf wedi amlygu meysydd afreolaidd lle mae llinellau cyllideb oedd o fudd i blant wedi cael eu dileu trwy gamgymeriad, mewn perthynas â chefnogaeth i addysg grwpiau ethnig lleiafrifol a rhaglen cyswllt â'r heddlu *School Beat*, ac rwyf wedi gweithio ochr yn ochr â Phwyllgor PPIA y Senedd yn arbennig i unioni'r diffygion hyn. Rwyf hefyd wedi codi'n gyson yr angen am ystyried y Gyllideb yn gyffredinol o safbwynt hawliau plant, ac wedi croesawu cyfres o argymhellion cysylltiedig â hynny gan y Pwyllgor.

Ni chyhoeddwyd Asesiad Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Gyllideb eto eleni, a nodaf fod y Pwyllgor PPIA eisoes wedi codi hynny gyda'r Gweinidogion. Mae hyn yn awgrymu na fu ystyriaeth gydlynus, gyffredinol o oblygiadau setliad y gyllideb o safbwynt hawliau plant. Ceir pum paragraff byr yn unig am blant yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol, sy'n cynnwys cydnabyddiaeth agored bod y pandemig yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc, ac yn golygu eu bod yn wynebu risg uwch o anawsterau iechyd meddwl ar hyd cwrs eu bywyd. Ac eto, ni ddywedir dim mwy am sut mae'r Gyllideb yn ei chyfanrwydd yn bwriadu lliniaru'r effaith honno, ac ni sonnir am hawliau plant ychwaith, na'u hystyried.

Nodir bod y gyllideb hon yn cyflwyno lefel ariannu uwch i lawer o wasanaethau cyhoeddus, mewn ymateb yn rhannol, wrth gwrs, i bandemig Covid-19. Croesawir hyn.

Fel pencampwr annibynnol i blant ledled Cymru, fy rôl statudol a'm cylch gorchwyl deddfwriaethol yw galw'r cyrff hynny i gyfrif am eu darpariaeth a'r hyn maen nhw'n ei gyflawni o ran hawliau plant. Ac eto, rwy'n fy nghael fy hun yn y sefyllfa gwbl ddigynsail o orfod cyflwyno sylwadau ynghylch lefel fy nghyllideb fy hun, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru fel 'cyllideb wastad' ar gyfer y tair blynedd nesaf, ond sydd i bob pwrpas mewn gwirionedd yn torri nôl

Tŷ Llewellyn/Llewellyn House
Parc Busnes Glan yr Harbwr/Harbourside Business Park
Heol yr Harbwr/Harbourside Road
Port Talbot
SA13 1SB

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

comisiynyddplant.cymru
childrenscommissioner.wales



Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

ar y cyllid sy'n angenrheidiol i gynnal gwaith pwysig ein sefydliad.

**Beth ofynnwyd amdano yn ein hamcangyfrif**

Roedd yr Amcangyfrif Cyllideb statudol a gyflwynais i'r Llywodraeth ym mis Hydref 2021 yn cyflwyno anghenion y sefydliad ar sail adnoddau llawn, fel sy'n ofynnol gan Llywodraeth Cymru. Mae copi llawn o'r Amcangyfrif hwnnw ynghlwm wrth y llythyr hwn er mwyn darparu rhagor o gyd-destun a thystiolaeth ar gyfer y pwyntiau rwy'n eu codi yn y llythyr hwn. Y ffigur yr aseswyd ei fod yn angenrheidiol er mwyn i'r sefydliad barhau i weithredu yn ystod y flwyddyn nesaf oedd £1,695,765, sy'n gadael diffyg o £115,765 yn y flwyddyn ar sail y £1,580,000 a gynigir. Gyda 'chyllideb wastad' yn cael ei chynnig ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol yn ogystal, mae hyn yn cyflwyno her sylweddol i gynaliadwyedd ariannol a pherfformiad y sefydliad yn ei fformat presennol. Bydd costau sydd y tu allan i'm rheolaeth fel swyddog cyfrifyddu, megis yswiriant gwladol a phensiynau, yn parhau i godi yn ystod y cyfnod hwn.

Ar hyd fy nghyfnod fel comisiynydd, rwyf wedi bod yn eithriadol o ymwybodol o'r angen am gyflwyno gwerth gorau am arian yn ystod cyfnodau o gyni i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Nid oes gennyf gyfleoedd eraill i gynhyrchu incwm, ond rwyf wedi llwyddo i wneud y canlynol:

- Gostwng yn systematig y lefel uchel o gronfeydd ariannol wrth gefn a etifeddwyd ar adeg fy mhenodiad i lefel sydd oddi mewn i ganllawiau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru, yn unol â'r Gorchymyn Dynodi;
- Lleihau nifer y staff o ganlyniad i doriad o 10% i'm cyllideb ym mlwyddyn 1;
- Sicrhau gostyngiad o 64% yn ôl troed ein swyddfa;
- Cynyddu'r allbynnau a'r effeithiau – y cyfeiriodd y Pwyllgor PPIA atynt fel rhai 'rhyfeddol' – yn ystod y 6 blynedd diwethaf yn wyneb 'cyllideb wastad', sydd wedi golygu toriadau blynyddol i'r gyllideb mewn termau go iawn;
- Ymgymryd â gwaith ychwanegol yn ystod y pandemig, gan gynnwys dau arolwg graddfa fawr o blant a phobl ifanc, a gafodd enw da yn rhyngwladol, heb ofyn am arian ychwanegol.

Rwyf wedi ysgrifennu at fy Ngweinidog cyswllt, Jane Hutt, i godi fy mhryderon, ond roeddwn i'n teimlo ei fod yn bwysig codi hyn hefyd gyda'r pwyllgorau craffu perthnasol mewn perthynas â'r maes gwaith hwn. O ganlyniad, rwyf wedi anfon y llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgor PPIA a Phwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd. Mae fy nghyllideb yn rhan o'r dyraniad Cyfiawnder Cymdeithasol, ochr yn ochr â'r Comisiynwyr statudol eraill, ond mae fy nghraffu blynyddol arferol yn dod o dan y Pwyllgor PPIA, felly dyna fy rhesymeg o ran cysylltu â'r ddau bwyllgor ynghylch hyn.

**Rhesymau allweddol dros ofyn am gynnydd cymedrol**

1. Mae mwyafrif helaeth fy nghyllideb yn talu am gostau sefydlog staffio, adeiladau, TG a gofynion rheoliadol eraill megis archwiliadau ariannol. Mae'r costau hyn wedi codi'n sylweddol yn ystod fy nghyfnod yn y swydd, ochr yn ochr â gostyngiad yn incwm y gyllideb a'r gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys **cynnydd o 64% mewn costau pensiwn ers 2018**, sydd y tu hwnt i'm rheolaeth, er mai 11% yn unig mae cyflogau staff wedi codi yn gyffredinol. Mae'r Amcangyfrif a gyflwynwyd yn nodi â chryn fanylder yr ymdrechion a wnaed i ostwng costau sefydlog a cheisio sicrhau gwell gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus, ond rwyf wedi cyrraedd man lle nad oes modd torri'n ôl ymhellach heb effeithio ar yr hyn y mae'r sefydliad yn ei gyflwyno, a sut rydym ni'n cyflawni ein cylch gorchwyl statudol a'n rhwymedigaethau.

2. Bydd y Comisiynydd Plant newydd yn cychwyn yn ei swydd ym mis Ebrill 2022. Fel ceidwad y swydd, rwy'n teimlo o dan rwymedigaeth foesol a phroffesiynol i drosglwyddo'r sefydliad i'm holynydd mewn sefyllfa ariannol sefydlog a chynaliadwy, a dyna pam y cyflwynais yr Amcangyfrif Cyllideb gyda chais am gynnydd rhesymol ar sail adnoddau a chostau. Heb y cynnydd rhesymol hwnnw, ni fydd fy olynydd yn gallu talu am y costau cynyddol a fydd y tu allan i'w rheolaeth uniongyrchol fel Swyddog Cyfrifyddu, a bydd hynny'n cael effaith negyddol ar ei gwaith yn cyflawni'r rôl. Mae hyn yn creu sefyllfa a chanfyddiad cyhoeddus annheg ar gyfer deilydd newydd y swydd, a allai wynebu beirniadaeth am gynllun gwaith neu ddull gweithredu mwy cyfyngedig, er bod hynny mewn gwirionedd y tu hwnt i'w rheolaeth oherwydd ariannu annigonol.

   Nodaf fod Pwyllgor PPIA y Senedd, yn ei adroddiad ar y broses rag-benodi ar gyfer y comisiynydd newydd, wedi codi nifer o feysydd y byddent yn disgwyl i'r swyddfa ganolbwyntio arnynt ar hyd tymor y comisiynydd newydd. Mae'r rhain yn cynnwys ymgysylltu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc ar draws y wlad gyfan, adeiladu rhwydweithiau proffesiynol newydd i gefnogi hynny, mesur effaith gwaith cymhleth ac amlweddog y swyddfa, cymryd camau pendant ac amlwg i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant a chymryd amser a gofal i wrando ar bob plentyn, gan gynnwys plant sy'n siarad Cymraeg. Mae'r rhain yn ddisgwyliadau teg a rhesymol, a seiliwyd ar ymgysylltiad llawn â'r broses benodi, a bydd y gwaith hwn yn galw am adnoddau ac arbenigedd digonol i sicrhau bod modd cadw at ddisgwyliadau'r Pwyllgor.

**Effaith setliad drafft y gyllideb**

**Nesaf byddaf yn cyflwyno rhai effeithiau posibl allweddol i'r dyraniad drafft, ond yn gryno, byddant yn golygu newidiadau i raglen waith y swyddfa, ein gallu i weithredu fel ffrind beirniadol i'r Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus, ac o safbwynt cadw ein tîm staff sydd â lefel uchel o sgiliau. Mae'r rhain i gyd yn debygol o gael effaith ar hawliau plant yng Nghymru ac uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer ei Rhaglen a'i gwerthoedd.**

1. **Newidiadau i raglen waith gytunedig y sefydliad**

Os na chaiff setliad drafft y gyllideb ei newid, bydd gofyn bod y sefydliad yn dewis rhwng meysydd gwaith a gynlluniwyd. Mae cynllun gwaith 2022-23 eisoes wedi cael ei bennu gan y tîm staff mewn ymgynghoriad â'n paneli ymgynghorol pobl ifanc ac oedolion, ac mae'n ddilyniant i lawer o feysydd gwaith pwysig, yn hytrach na bod yn flwyddyn dawel neu'n flwyddyn bontio i'r Comisiynydd newydd. Mae'r cynllun gwaith yn cynnwys prosiectau mewn perthynas ag ymwneud pobl ifanc â democratiaeth, y newid yn yr hinsawdd, cefnogaeth i blant niwroamrywiol, darpariaeth addysg mewn lleoliadau gofal iechyd, cefnogi gweithrediad y ddeddfwriaeth ADY a'r Cwricwlwm a'r dyletswyddau hawliau plant newydd sy'n rhan ohonynt, adrodd i Bwyllgor y CU ynghylch cyflawniadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ym maes hawliau plant, cefnogi cyrff cyhoeddus i roi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith, a gwaith pellach ar gydraddoldeb.

Dyma'r gwaith prosiect a gynigir yn unig, ac nid yw'n cynnwys ein gwaith creiddiol parhaus megis:

- Cynnal ein rhaglenni Llysgenhadon llwyddiannus ar gyfer ysgolion a chymunedau;
- Cynnal ein gwasanaethau ymchwiliadau a chyngor annibynnol, dwyieithog, y ceir mynediad iddo am ddim;
- Gwneud cyfranogiad gweithredol fel aelod annibynnol o weithgorau'r Llywodraeth sy'n cyfarfod yn aml iawn, gan gynnwys dileu elw o ofal, iechyd meddwl a llesiant, diogelu ym myd addysg, a llawer o rai eraill;
- Ymateb i ymgyngoriadau'r Llywodraeth a'u llywio ar ystod eang o bynciau;
- Ymgynghori â miloedd o blant a phobl ifanc, er mwyn pennu a llywio ein rhaglenni gwaith parhaus;
- Cynnal grwpiau ymgynghorol oedolion a phobl ifanc i'n helpu i gynllunio'n feirniadol ac ystyried a yw ein holl raglenni gwaith a'n camau gweithredu yn gwneud y cyfraniad gorau i hawliau plant yng Nghymru;

- Dod â phobl ifanc i gwrdd â Gweinidogion er mwyn helpu i lywio eu penderfyniadau, a'u cefnogi'n briodol i ymgysylltu â chyfarfodydd o'r fath; ac
- Ymateb i heriau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg ar gyfer plant a phobl ifanc.

Rwy'n ofni y bydd y setliad hwn yn cyfyngu ar allu'r Comisiynydd i bennu rhaglen waith annibynnol sy'n cwmpasu'r holl feysydd sy'n bwysig i blant a phobl ifanc yng Nghymru heddiw, a chyflawni cylch gorchwyl cyfreithiol y swydd. Mae nifer o gostau cynyddol, megis costau ynni a phensiynau, y tu hwnt i'n rheolaeth, sy'n golygu mai cyllid cyfyngedig fydd ar gael er mwyn bod yn ymatebol a phennu rhaglen waith uchelgeisiol a phriodol ar gyfer plant Cymru.

**2. Newid i'n dull o weithio gyda Llywodraeth Cymru**

Bydd y toriad arfaethedig mewn termau go iawn i'r gyllideb yn newid yn sylfaenol y berthynas waith bresennol rhwng y swyddfa a'r Llywodraeth. Yn arbennig yn ystod y pandemig, fel mae fy adroddiadau *Coronafeirws a Ni* yn dangos, fe wnaethom ni ymateb yn gyflym ac yn gynhwysfawr i geisiadau rhybudd byr iawn am gyngor a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys y ddau arolwg Coronafeirws a Fi, a ddaeth yn enwog yn rhyngwladol, na ofynnwyd am unrhyw gyllid ychwanegol ar eu cyfer na'i dderbyn gan unrhyw bartneriaid, gan gynnwys y Llywodraeth, a sbarduno a chefnogi'r gweithgareddau Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles. Rydym ni'n amcangyfrif y byddai'r darnau hynny o waith yn unig wedi costio dros £100,000 i Lywodraeth Cymru yn 2020-22 petaen nhw wedi'u caffael oddi wrth sefydliad arall. Roeddem ni'n gweld y rhain fel ein cyfraniad ni, gwasanaeth cyhoeddus, i'r argyfwng cenedlaethol. Rydym wedi gallu cyflawni gwaith o safon uchel, a hynny'n gyflym, oherwydd bod gennym dîm profiadol a gwybodus o staff – sy'n ased nid yn unig i ni fel sefydliad, ond hefyd i gyflwyno gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ystod y pandemig mae fy staff wedi crynhoi a chyflwyno asesiadau effaith ar hawliau plant ar gyfer cynigion polisi newydd a chyfrinachol bob wythnos, os nad bob dydd ar brydiau, er mwyn cynghori'r Llywodraeth. Rwy'n ymwybodol o nifer o achosion ym maes addysg a gwasanaethau cymdeithasol lle mae hynny wedi newid yr opsiynau polisi mae'r Llywodraeth yn eu hystyried yn sylweddol, a deuwyd i ddibynnu ar y ffynhonnell barod hon o gyngor. Rwyf wedi clywed gan Weinidogion a swyddogion bod y gwaith hwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr, a bod yr arbenigedd o fewn y Llywodraeth i gyflawni rôl arbenigol o'r fath yn gyfyngedig.

Yn syml iawn, ni fydd parhau i gefnogi gwaith y Llywodraeth 'ar i fyny' ar y lefelau presennol yn bosib nac yn gynaliadwy o dan y setliad arfaethedig; naill oherwydd bydd angen i ni neilltuo mwy o amser staff ac adnoddau ar gyfer ein

gwaith prosiectau yn absenoldeb cyllid digonol i ymgymryd â darnau o waith thematig, a/neu yng ngoleuni'r angen am ailstrwythuro sefydliadol.

### 3. Effaith ar gyflwyno'r Rhaglen Lywodraethu yn effeithiol

Os na chaiff ei newid, bydd setliad drafft y gyllideb yn cael effaith o ganlyniad ar gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Mae nifer o ymrwymiadau pwysig sydd i'w croesawu'n fawr i blant yn y Rhaglen a ddiweddarwyd, gan gynnwys estyn prydau ysgol am ddim i blant ysgol gynradd, ehangu'r cynnig gofal plant, noddfeydd iechyd meddwl a lleoedd diogel i blant a theuluoedd fynd iddynt mewn argyfwng, dileu elw mewn gwasanaethau gofal plant, estyn y diwrnod ysgol a'r cynnig llesiant i blant, lledaenu'r ddeddfwriaeth newydd ar ADY a'r Cwricwlwm, a llawer iawn mwy. Mae fy swyddfa wedi chwarae rhan weithredol yn yr holl feysydd polisi hyn, a throir atom am gyngor a chyfraniadau arbenigol yn rheolaidd.

Fy null gweithredu innau fu gweithio ochr yn ochr â'r Llywodraeth fel ffrind beirniadol, er mwyn sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud yn iawn y tro cyntaf, yn hytrach na disgwyl am gyhoeddiadau a beirniadu o bell. Yn ogystal â bod yn un o argymhellion adolygiad Shooter o'r swyddfa yn 2014, rwyf hefyd o'r farn mai dyma'r ffordd orau i gyflwyno polisïau a chanlyniadau llwyddiannus i blant.

Mae naratif Cyllideb 2022-23 yn cynnwys ymrwymiad i *"barhau i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu [ein] gwasanaethau cyhoeddus"* ond bydd rôl fy swyddfa yn galw'r gwasanaethau hynny i gyfrif ar ran plant yn cael ei llesteirio os na fydd yr agwedd at ein setliad ariannol yn dilyn yr un patrwm. Nodir hefyd *"Ni allwn, ac ni fyddwn, yn anwybyddu effeithiau trychinebus parhaus y pandemig ar bobl Cymru. Nid yw'r effeithiau hyn yn rhai cyfartal na theg."* Plant yw un o'r grwpiau sydd wedi teimlo effaith y pandemig yn arbennig o feichus, ac mae hynny'n parhau. Fel pencampwr annibynnol hawliau a lles plant yng Nghymru, mae'n hanfodol bod fy sefydliad yn derbyn cyllid digonol i gynrychioli eu buddiannau, ac i glywed eu profiadau parhaus, fel bod modd bwydo hynny i mewn i bolisi'r Llywodraeth ar adferiad wedi Covid, a llywio'r polisi hwnnw wrth iddo esblygu.

### 4. Effaith ar gostau staffio

Os bydd y dyraniad ar gyfer fy swyddfa yn parhau ar lefel 'wastad' yn ystod y tair blynedd nesaf, canlyniad tebygol i hynny yw y bydd yn rhaid i ni leihau'r costau staff trwy ddewis o blith nifer o opsiynau anodd. Gallai hynny olygu y byddem ni'n methu gweithredu'r setliad cyflog gwasanaeth sifil teg a gyd-drafodwyd ar gyfer eleni, y cytunodd Llywodraeth Cymru arno, nac addo bod unrhyw gynnydd yn debygol yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Rwy'n pryderu y gallai hynny beryglu morâl a iechyd meddwl y staff; yn y tymor byr gallai hynny effeithio ar gynhyrchiant blwyddyn gyntaf tymor gwasanaeth Comisiynydd newydd, ac yn y tymor hwy gallai olygu bod y staff profiadol hyn yn gadael eu swyddi ac yn chwilio am gyfleoedd mewn mannau eraill. Ail opsiwn, sydd yr un

mor heriol, fyddai bod fy olynydd yn ailstrwythuro yn ei blwyddyn gyntaf, gan amharu’n sylweddol ar gyflawni blaenoriaethau gwaith a chylch gorchwyl statudol y Comisiynydd newydd a tharfu arnynt. Mae modd osgoi hyn i gyd â chynnydd cymedrol a fyddai’n ein galluogi i gynnal gweithlu ac allbwn sefydlog.

**Y camau nesaf**

Mae’r Amcangyfrif yn cyflwyno’r ystod o fesurau a roddwyd ar waith gennyf i leihau costau yn y sefydliad, yn ogystal â nifer o gostau sefydlog sylweddol uwch sydd y tu hwnt i reolaeth fy sefydliad. I grynhoi, nid oes unrhyw beth arall y gallaf ei newid neu dorri’n ôl arno na fyddai’n effeithio ar gyflawni ein gwaith a’r cyngor beirniadol a’r gefnogaeth rydym ni’n eu cynnig yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru.

Rwyf wedi gofyn i’r Llywodraeth am ymateb terfynol ynghylch sut gwnaed y penderfyniad i barhau i ddarparu’r un setliad ag mewn blynyddoedd blaenorol yn ystod cyfnod pan fo costau tu allan i reolaeth y swyddog cyfrifyddu yn codi. Yng ngoleuni’r cwtogi ar y broses o graffu ar y Gyllideb, fodd bynnag, teimlwn fod rhaid i mi godi fy mhryderon hefyd gyda’r pwyllgorau craffu perthnasol.

Byddwn yn falch o fod yn rhan o graffu pellach gyda’ch Pwyllgor a’i aelodau yn y cyswllt hwn.

Yn gywir

Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru
Children’s Commissioner for Wales

Amg. Amcangyfrif Cyllideb CPC 2022/23

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a galwadau a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd cysylltu yn Gymraeg yn arwain at oedi | We welcome receiving correspondence and calls in Welsh. We will respond to correspondence and calls in Welsh, and contacting us in Welsh will not lead to delay.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

**Amcangyfrif Cyllideb Comisiynydd Plant Cymru 2022-23**

**Cynnwys**

1. Cyflwyno'r amcangyfrif
2. Rôl Comisiynydd Plant Cymru
3. Trefniadau llywodraethu
4. Cyflawniadau
5. Trafodaeth ac effaith ar y Gronfa Gyffredinol
6. Rhagdybiaethau Gwaelodol


## 1. Cyflwyno'r amcangyfrif

Mae'r amcangyfrif hwn yn nodi gofynion fy swyddfa o ran adnoddau ar gyfer 2022-23, gyda chyllideb ddangosol ar gyfer y ddwy flynedd olynol. Mae'n gais am gynnal sefydliad cynaliadwy, sefydlog, sy'n addas i gyflawni ei rwymedigaethau statudol.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ffactorau cyd-destunol sy'n esbonio tueddiadau o ran incwm, gwariant a'r gronfa gyffredinol sydd wedi siapio fy swyddfa yn ystod y chwe blynedd diwethaf, a sut rydyn ni wedi cyfrannu, fel corff cyhoeddus, at ymdrechion cenedlaethol i sicrhau'r gwerth gorau am arian mewn cyfnod o gyni. Mae'r ffactorau canlynol yn arbennig o berthnasol:

**a) Pum mlynedd o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar lefel sylweddol is na'r wyth mlynedd cyn 2016.**

Dangosir hyn yn ffigur 1:




**Mae incwm fy swyddfa gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ers 2016 wedi bod ar lefel is na'r incwm blynyddol i'm swyddfa yn ystod yr wyth mlynedd cyn 2016**, fel y dangosir yn Ffigur 1. Mae fy nhîm a minnau wedi rheoli'r gostyngiad hwn mewn incwm trwy ailstrwythuro staff yn y lle cyntaf, lle bu'n rhaid dileu nifer o swyddi, cau swyddfa loeren, gwneud defnydd a gynlluniwyd o gronfeydd wrth gefn a oedd gan y swyddfa, a gwario'n ddarbodus ar brosiectau a chostau swyddfa. Er gwaethaf y gostyngiad hwn mewn incwm, gellid dadlau bod fy Adroddiadau Blynyddol ers 2016 yn dangos bod cynhyrchedd fy swyddfa, o ran allbynnau ac effaith i blant, yn uwch nag erioed.

**b) Gostyngiad a gynlluniwyd yn ein cronfa gyffredinol, yn unol â'n polisi sefydliadol a gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrff a ariannir gan y Llywodraeth.**

Ym mis Ebrill 2015, pan gychwynnais yn y swydd, roedd gan y swyddfa Gronfa Gyffredinol o £408,000. Erbyn mis Ebrill 2021 roedd yn £51,000. Fel mae amcangyfrifon blaenorol wedi amlygu, mae defnydd darbodus, wedi'i gynllunio o'n cronfeydd wrth gefn wedi golygu bod modd i'm swyddfa ymgymryd â'i gweithgareddau yn ystod y blynyddoedd diwethaf er gwaethaf costau cynyddol a chyllideb sydd wedi aros yr un fath, i raddau helaeth. Fodd bynnag, nid yw'r gweddill sydd ar ôl yn y Gronfa Gyffredinol bellach yn ddigonol i wneud iawn am y diffyg rhwng ein grant blynyddol a'r cynnydd yn ein costau.

**c) Costau cynyddol, i raddau helaeth yn sgîl costau staff.**


Fel pob cyflogwr sector cyhoeddus, mae fy swyddfa wedi wynebu costau staff cynyddol, i raddau helaeth oherwydd cyfraniadau pensiwn uwch, cynnydd incrementaidd yn y bandiau cyflog sy'n adlewyrchu'r rhai yn y gwasanaeth sifil, a'r cynnydd a ragwelir yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr – elfennau sy'n gyfangwbl y tu hwnt i'm rheolaeth fel Swyddog Cyfrifyddu. Yn ystod y pedair blynydd diwethaf, mae'r cynnydd mewn costau pensiwn (64%) wedi bod yn sylweddol uwch na'r cynnydd yn ein bil cyflogau (11.4%), fel y gwelir yn **Nhabl 1.**

**Tabl 1: Y cynnydd mewn costau staffio 2017-21.**

| Disgrifiad | 2017-18 (£'000) | 2020-21 (£'000) | Canran y newid rhwng cyfnodau |
|---|---|---|---|
| Cyflogau a Thaliadau Gwaith | 858 | 956 | **11.4 %** |
| Nawdd Cymdeithasol | 85 | 96 | **12.9 %** |
| Pensiwn | 139 | 228 | **64 %** |
| Secondiadau | (78) | (22) | |
| Cyfanswm | 1,004 | 1,258 | **25.3 %** |

Er bod nifer y staff sydd gen i'n llai na phan ddes i i'r swydd yn 2015, fel y gwelir yn **Ffigur 2**, mae'n weithlu sefydlog i raddau helaeth, sy'n golygu bod llawer o'r staff wedi cyrraedd pwynt uchaf eu bandiau cyflog. Mae hyn yn sicrhau cyfoeth o brofiad ac arbenigedd ar gyfer gwaith y swyddfa, yn ogystal â sefydlogrwydd yn ein gweithlu; mae'n golygu bod gennyf fi dîm o staff sy'n gallu cyflawni llawer iawn o waith o safon uchel, a hynny'n gyflym.

**Ffigur 2: Niferoedd Staff Cyfartalog 2007-21**




**d) Gostyngiad yn y costau heblaw staff, gan gynnwys costau swyddfa.**

Yn ogystal â gostyngiad yn y cyflenwad o staff, mae'r **gofod swyddfa llythrennol rydyn ni'n ei lenwi hefyd 64% yn llai** na phan gychwynnais i yn y swydd yn 2015, gan sicrhau mwy o werth i'r pwrs cyhoeddus. Cyflawnwyd hyn trwy leihau nifer y swyddfeydd o ddwy i un yn 2016 a symud i swyddfa lai yn 2021.

**Tabl 2: gostyngiad ym meddiant swyddfeydd fesul metr sgwâr 2015-2021**

| | **2015-16** | **2021-22** | **Gwahaniaeth** | **Gwahaniaeth (%)** |
|---|---|---|---|---|
| Metrau sgwâr o lety swyddfa | 664.94 (m2) | 238 (m2) | 426.94 (m2) | 64.2 |

Yn ein llety newydd, rydyn ni mewn sefyllfa ddelfrydol i fedru ymsefydlu fel hwb sector cyhoeddus gwirioneddol yng nghanol Port Talbot, mewn adeilad cynaliadwy, sy'n hygyrch i bawb trwy seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus cadarn, lle addas a diogel i'r staff. Trwy symud fel hyn, cafwyd arbedion cost o £56,000 yn erbyn ffigur ein darpariaeth dadfeiliad, ac ar gyfartaledd, arbediad o £20,000 y flwyddyn ar drethi a chostau rhent.

**Mae costau teithio a chynhaliaeth wedi gostwng i lai na'r hanner** o gymharu â'r ffigurau cyn 2015 (gydag arbedion yn dyddio o'r cyfnod cyn cyfyngiadau Covid-19) oherwydd fy mod yn benderfynol o sicrhau fy mod innau a'r tîm yn teithio'n gynaliadwy, ac mae'r **gyllideb hyfforddiant a datblygu hefyd ryw draean yn is** nag yn ystod y ddwy flynedd cyn 2015. Yn lle hynny, rydyn ni wedi neilltuo cymaint â phosib o'n cyllid ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau statudol i blant yng Nghymru. Er gwaethaf yr ymdrechion parhaus hyn i leihau gwariant y swyddfa, mae costau staffio y tu hwnt i'n rheolaeth wedi cynyddu'n gyflym, fel y disgrifiwyd uchod.

Yn unol ag uchelgais ymarferiad alinio Llywodraeth Cymru, rwyf wedi seilio fy amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2022-23 ar anghenion adnoddau fy swyddfa, ac mae'r amcangyfrif yn cynnwys

nifer o ragdybiaethau. Mae'r rhain yn cynnwys lefel chwyddiant yn ystod y cyfnodau ariannol a mwy o ddefnydd o weithio gartref er mwyn cyflawni gweithgareddau'r sefydliad. Rwyf wedi nodi mwy o fanylion ynghylch y rhagdybiaethau hyn yn adran 6 o'r amcangyfrif hwn.

Dylid nodi hefyd:

- Bod yr amcangyfrif hwn yn cael ei gyflwyno mewn blwyddyn pan fo **effaith barhaus Covid-19** yn dal i'w deimlo ac mae **peth ansicrwydd** yn parhau ynghylch sut gallai hynny effeithio ar faterion megis trefniadau gweithio gartref yn y tymor canolig i'r tymor hir. Mae hyn yn cael effaith amrywiol ar linellau cyllideb, gan gynnwys costau TG (sy'n cynnwys seiberddiogelwch) a theithio a chynhaliaeth.

- **Nad yw'r Llywodraeth wedi cwblhau ei hymarferiad i newid Deddf Llywodraeth Cymru 2006** Gorchymyn (Penderfyniadau Cyllideb a Chyrff Dynodedig) 2018 ac mae effaith yr 'ymarferiad alinio' hwn ar rai agweddau ar ein gweithrediadau ariannol yn dal heb ei gadarnhau. Serch hynny, mae'r amcangyfrif hwn yn cydymffurfio â gofynion y broses hon, a gafodd eu cyfleu i ni gan swyddogion y Llywodraeth.

O ganlyniad, rwy'n cyflwyno'r amcangyfrif cyllideb hwn i Weinidogion Cymru fel sy'n ofynnol o dan baragraff 6 (2) o Atodlen 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'n nodi'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni fy swyddogaethau statudol. Cyfanswm fy nghyllideb adnoddau ar gyfer 2022-23 yw £**1,695,765.**

**Tabl 1: Amcangyfrif a lefel cyllideb ddangosol ar gyfer y tair blwyddyn ariannol nesaf**

| | **Amcangyfrif 2022-23** (£) | **Dangosol 2023-24** (£) | **Dangosol 2024-25** (£) |
|---|---|---|---|
| Cyflogau (gan gynnwys cyfraniad pensiwn) | 1,300,799[1] | 1,281,524 | 1,284,487 |
| Safleoedd | 70,573 | 71,984 | 73,424 |
| Costau swyddfa | 68,550 | 69,921 | 71,319 |
| Hyfforddiant a llesiant | 23,000[2] | 17,460 | 17,929 |
| Teithio a chynhaliaeth | 9,300 | 9,486 | 9,676 |
| Ffi archwilio allanol | 17,643 | 17,643 | 17,643 |
| Ffi archwilio mewnol | 12,600 | 12,600 | 12,600 |
| Cyfathrebu | 40,500 | 41,310 | 42,136 |
| TGCh | 33,000 | 33,660 | 34,333 |
| Costau prosiectau | 102,800 | 79,856 | 87,454 |
| Cyfalaf a dibrisiant | 17,000 | 17,000 | 17,000 |
| **Cyfanswm Cyllideb Adnoddau** | **1,695,765** | **1,652,444** | **1,662,001** |

[1] Mae costau staffio uwch 2022-23 yn cynnwys costau penodiad yn ystod absenoldeb mamolaeth a ragwelir yn achos swydd greiddiol

[2] Mae'r costau hyfforddi uwch yn 2022-23 yn darparu ar gyfer angen posib am diwtora dwys yn y Gymraeg os nad yw'r Comisiynydd newydd a benodwyd eisoes yn rhugl yn Gymraeg, yn unol â disgrifiad swydd Llywodraeth Cymru.

## 2. Rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru (CPC), a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, yn sefydliad hawliau plant annibynnol. Mae fy nghylch gorchwyl wedi'i nodi yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, a newidiodd Ddeddf Safonau Gofal 2000. Fy mhrif nod yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Rhaid mai dyma fy amcan gor-redol wrth gyflawni fy swyddogaethau.

Y diffiniad o blentyn yn Neddf 2000 yw person o dan 18 oed, er fy mod i'n gallu gweithredu pan fydd person ifanc yn hŷn na hyn o dan rai amodau. Er enghraifft, galla i weithredu ar ran person ifanc hyd at 25 oed os yw wedi cael ei roi mewn gofal, ac os oes gan yr awdurdod lleol ddyletswydd barhaus i ofalu amdano/amdani o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Wrth ymarfer fy swyddogaethau, rhaid i mi roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - siarter ryngwladol sy'n nodi'r isafswm safonau ar gyfer plant a phobl ifanc, ble bynnag maen nhw'n byw. CCUHP yw'r sylfaen ar gyfer fy ngwaith i gyd. Er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal yng Nghymru, galla i adolygu ymarferiad swyddogaethau amrywiol gyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru, ac adolygu a monitro'r trefniadau sydd gan rai cyrff cyhoeddus i ddiogelu a hybu hawliau plant yng nghyswllt delio â chwynion a sylwadau, sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn ymateb i ddatgelu camarfer, cynrychioli barn a dymuniadau plant, a rhoi cyngor a chefnogaeth i blant.

Mae fy nghylch gorchwyl yn cwmpasu holl feysydd pwerau datganoledig Senedd Cymru, i'r graddau y maent yn effeithio ar hawliau a lles plant. Gallaf hefyd gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.

## 3. Trefniadau llywodraethu

Gan fy mod mewn swydd gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, rwy'n ymroddedig i weithredu systemau trylwyr a thryloyw o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau. Mae fy fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r sefydliad. Isod ceir disgrifiad o'm strwythur llywodraethu. Mae manylion pellach ynghylch aelodaeth pob grŵp, presenoldeb a'u cylchoedd gorchwyl ar gael ar fy ngwefan.

- **Y Comisiynydd:** corfforaeth un person a swyddog cyfrifyddu.
- **Y Tîm Rheoli**: ei brif ddiben yw darparu cefnogaeth a chyngor i'r Comisiynydd ynghylch cyfeiriad strategol y sefydliad, gan gynnwys cyfrannu at ddatblygu nodau strategol a chynlluniau gwaith blynyddol. Mae'r Tîm hefyd yn gyfrifol am arweinyddiaeth strategol y sefydliad, ac yn rheoli'r gwaith o redeg y swyddfa o ddydd i ddydd yn unol â gwerthoedd y sefydliad.
- **Paneli Ymgynghorol Pobl Ifanc ac Oedolion y Comisiynydd:** mae'r paneli hyn yn darparu cefnogaeth annibynnol ar ffurf cyngor, craffu a her i'r Comisiynydd a'i staff, er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol y Comisiynydd yn cael eu cyflawni'n effeithiol, a bod ei staff yn gwneud yr un modd yn achos polisïau a chynigion, gan lywio'r polisi a'r blaenoriaethau strategol.

- **Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg:** mae'n cynghori'r Comisiynydd ynghylch y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu, polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, a'r gweithgaredd a gynlluniwyd a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol. Mae'r aelodau anweithredol hefyd yn darparu her yng nghyswllt fy ngwariant a'm hamcangyfrif.
- **Archwilio Mewnol**: TIAA Ltd sy'n darparu gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer fy swyddfa. Fe'u penodwyd o 1 Ebrill 2021, yn dilyn ymarferiad caffael ar y cyd gan yr Ombwdsmon a swyddfeydd Comisiynwyr eraill. Maent yn gweithredu'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd, sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y sefydliad. Yn eu Hadroddiad Blynyddol diweddaraf i mi, rhoddodd Deloitte, fy archwilydd mewnol blaenorol, sicrwydd sylweddol mewn perthynas â llywodraethu corfforaethol a rheoli risg. Daethant hefyd i'r casgliad bod gen i system gadarn ar gyfer rheolaeth fewnol, a ddylai ddarparu sicrwydd ynghylch cyflawni fy amcanion.
- **Archwilio Allanol**: bob blwyddyn, mae cyfrifon fy sefydliad yn cael eu harchwilio a'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 2 i'r Ddeddf Safonau Gofal. Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg ar sefyllfa ariannol y sefydliad. Mae'n ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n ymwneud â'r cyfrifon. Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn ddiamod ar fy Adroddiad Blynyddol a'm Cyfrifon ar gyfer 2020-21.

Fel swyddog cyfrifyddu darbodus, mae gen i ragolygon manwl ar gyfer y flwyddyn ariannol, yr wyf yn eu trafod gyda'm Tîm Rheoli bob mis, a chyda'm Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg bob chwarter. Mae'r rhagolygon hyn yn archwilio'r amgylchiadau y mae angen i mi weithredu o'u mewn, i gyflawni fy nghynllun strategol uchelgeisiol, sydd wedi'i seilio ar ymgynghori helaeth â phlant a phobl ifanc. Er fy mod yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth, er mwyn sicrhau tryloywder, rwyf hefyd yn trafod fy sefyllfa ariannol gyfredol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru bob chwarter, gan gynnwys fy nghronfeydd wrth gefn, a'r rhagolygon o ran y gyllideb.

## 4. Cyflawniadau

Mae fy Adroddiad Blynyddol diweddaraf, sydd ar gael ar fy ngwefan, yn cynnwys dadansoddiad manwl o gyflawniadau fy swyddfa. Mae'n cynnwys manylion ynghylch sut mae ein gwaith prosiect a chraidd (o ddydd i ddydd) wedi cyflawni yn erbyn fy nghynllun tair blynedd. Isod ceir crynodeb o'r prif gyflawniadau gan fy nhîm rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021:

- Ymgysylltwyd yn uniongyrchol ag o leiaf 694 o blant a phobl ifanc ledled Cymru mewn digwyddiadau, gweithdai a chyfarfodydd ar-lein
- Casglwyd barn 44,000 o blant a phobl ifanc ledled Cymru trwy ein harolygon 'Coronafeirws a Ni'
- Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda 55 o bobl ifanc ledled Cymru mewn 'diwrnod gwrando' ym mis Tachwedd i asesu effaith cyfyngiadau 'cyfnod clo byr' mis Hydref yng Nghymru
- Casglwyd barn 167 o benaethiaid ysgolion a cholegau ar gynhwysiad digidol yn ystod un wythnos ym mis Ionawr
- Cynhaliwyd gwersi hawliau plant ar-lein ar gyfer 864 o blant a phobl ifanc
- Sicrhawyd bron 10,000 o bleidleisiau yn etholiad Senedd paralel cyntaf y wlad ar gyfer pobl ifanc 11-15 oed
- Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ar hawliau plant i fwy nag 800 o gyfranogwyr
- Ymatebwyd i o leiaf 30 o ymgyngoriadau gan y Senedd, Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill, gan greu newid amlwg mewn nifer o bolisïau newydd a deddfwriaeth.

- Cyhoeddwyd 11 o adroddiadau thematig ar bynciau oedd yn amrywio o gynhwysiad yn y cyfnod sylfaen i adroddiad i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn.
- Rheolwyd 663 o achosion trwy ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor
- Sicrhawyd o leiaf 449 o enghreifftiau o sylw i'r sefydliad mewn darllediadau ac mewn print
- Gweithiwyd gydag o leiaf 148 o weithgorau a sefydliadau ar amrywiaeth o faterion hawliau plant, a chynyddu ein hymwneud â rhai sefydliadau hollbwysig, gan gynnwys consortia addysg, cyrff trydydd sector ac undebau athrawon.

Yn ogystal â gwaith a gynlluniwyd, fel sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill, gwnaeth fy nhîm bach o staff gyfraniad sylweddol i'r ymateb cenedlaethol i bandemig Covid-19 trwy ymgymryd â darnau ychwanegol pwysig o waith. Aeth ein gweithlu profiadol, hynod fedrus y tu hwnt i'w cynlluniau gwaith arferol ac ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol er mwyn cyflawni darnau o waith ar derfynau amser tynn iawn yn ystod y pandemig. Byddwch chi'n gallu darllen am yr amrywiol allbynnau ac effaith yn ein dau adroddiad 'Coronafeirws a Ni', sydd hefyd ar gael ar ein gwefan. Dyma rai o uchafbwyntiau ein cyfraniad:

a) Fe wnaethon ni arwain, dadansoddi ac adrodd ar ddau arolwg mawr o brofiadau 44,000 o blant, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, a gwirfoddoli'n barod i dalu am gostau ychwanegol y gwaith hwn, sef £43,000 (heb gynnwys amser staffio sylweddol) o'n cronfa gyffredinol, heb ofyn am gymorth grant ychwanegol gan y llywodraeth.

b) Crëwyd ardal ar ein gwefan o ddim i gynnal yr adnodd gwybodaeth cenedlaethol '*Haf o Hwyl'* er mwyn i rieni, gofalwyr a phobl ifanc ddysgu am weithgareddau oedd yn cael eu cynnal ym mhob awdurdod lleol, wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru. Byddwn ni'n ailadrodd y gwasanaeth hwn ar gyfer y gweithgareddau *'Gaeaf Llawn Lles'*, fydd yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022.

c) Buon ni'n gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru bron yn ddyddiol yn ystod 2020-21 i ddylanwadu ar ganllawiau'r llywodraeth, oedd yn newid yn gyflym, trwy ddarparu adborth cyflym ac awgrymu newidiadau, gan lywio asesiadau effaith ac o bryd i'w gilydd hwyluso sesiynau ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar gyfer Gweinidogion ac uwch swyddogion.

d) Yn ystod wythnos gyntaf y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020 fe wnaethon ni ddatblygu ffynhonnell o wybodaeth y gallai plant a theuluoedd ymddiried ynddi, ar ffurf ein Hwb Gwybodaeth Coronafeirws dwyieithog, yr ydyn ni wedi parhau i'w ddiweddaru.

Rydyn ni'n amcangyfrif y byddai gwaith arolwg 'Coronafeirws a Fi', ei ddadansoddi a llunio adroddiadau arno (gan gynnwys adroddiadau dwyieithog, wedi'u teilwra i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol), plws tudalennau gwe yr 'Haf o Hwyl' a'r 'Gaeaf Llawn Lles', wedi costio dros £100,000 i Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-22 petaen nhw wedi'u caffael gan sefydliad arall. Rydyn ninnau wedi gweld y rhain fel ein cyfraniad i'r argyfwng cenedlaethol, fel gwasanaeth cyhoeddus.

Yn 2020-21, fe gynhalion ni hefyd Adolygiad statudol o sut bu Llywodraeth Cymru yn ymarfer ei swyddogaethau. Hwn oedd yr adolygiad cyntaf o'i fath, ac fe'i sbardunwyd yn gyflym yn dilyn penderfyniad gan y llywodraeth i beidio â symud ymlaen gyda newid deddfwriaethol a gynlluniwyd. Llwyddwyd i gwblhau'r adroddiad sylweddol hwn yn gyflym, gan wario isafswm o'r gyllideb trwy gynnal ymarferiad ar bapur oedd yn defnyddio'r adnoddau staff oedd eisoes ar gael.

Ym mis Gorffennaf 2021, fe symudon ni i swyddfa newydd, fwy modern ym Mhort Talbot, wedi i brydles 20-mlynedd ar y swyddfa flaenorol yn Llansamlet, Abertawe, ddod i ben. Roedd pedair ffactor yn dylanwadu ar fy nhîm wrth i ni fynd ati i chwilio am swyddfa newydd. Roedden ni am iddi fod yn hygyrch, yn gynaliadwy, yn lle fyddai'n gweithio i'n tîm o staff, ac am sicrhau'r gwerth gorau i'r pwrs cyhoeddus. Rydyn ni wedi cyflawni pob un o'r pedair.

Rydyn ni bellach mewn sefyllfa ddelfrydol i fedru ymsefydlu fel hwb sector cyhoeddus gwirioneddol yng nghanol Port Talbot. Rydyn ni mewn adeilad cynaliadwy, sy'n hygyrch i bawb trwy seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus cadarn, lle addas a diogel i'r staff, gydag arbedion cost o £56,000 yn erbyn ffigur ein darpariaeth dadfeiliad, ac ar gyfartaledd, arbediad o £20,000 y flwyddyn ar drethi a chostau rhent.

Mae'r arbedion uniongyrchol, a sicrhawyd wedi i'm tîm gynnal trafodaethau gyda'n landlord blaenorol, wedi golygu ein bod wedi talu am holl gostau symud swyddfa, yr holl gostau cyfalaf cysylltiedig â'n llety newydd, (gan gynnwys cyfarpar clyweledol i hwyluso trefniadau gweithio cyfun diogel) a dau brosiect newydd: un yn ymwneud â gweithredu Deddf ALNET a'r llall ar gyfer cynnal etholiad paralel i blant yn ystod etholiadau lleol 2022.

## 5. Trafodaeth ac effaith ar y gronfa gyffredinol

Ers dod yn Gomisiynydd, ac fel y nodwyd mewn amcangyfrifon blaenorol a gyflwynwyd, rwyf wedi gostwng lefel y cronfeydd wrth gefn, yn unol â'm polisi ar gronfeydd cyffredinol. Rwy'n ymroddedig i sicrhau fy mod yn cadw gweddill cadarnhaol yn y gronfa gyffredinol, fel bod gen i hyblygrwydd o fewn y flwyddyn i dalu am gostau ychwanegol, ond hefyd, yn bwysig, i fedru ymateb ar fyr rybudd i unrhyw ymchwiliad neu archwiliad posibl, gan gynnwys archwilio gweithgarwch Gweinidogion Cymru. Yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21 nodwyd mai lefel y gronfa gyffredinol oedd £51,000. Rwy'n rhagweld ffigur tebyg yn fy nghronfa gyffredinol ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021-22, sy'n cynnwys rhywfaint o arian sy'n weddill o'r ddarpariaeth dadfeiliad a drafodwyd uchod. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, mae defnydd darbodus o'm cronfa gyffredinol wedi caniatáu i mi gynnal lefel uchel o allbwn ac effaith gan fy swyddfa. Mae lefel gyfredol y gronfa gyffredinol, sy'n cyflawni disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran gofynion yr ymarferiad alinio, yn golygu bod angen mwy o gyllid ar fy swyddfa i gynnal ein gweithgareddau yn 2022-23.

## 6. Rhagdybiaethau Gwaelodol

Wrth gwblhau'r amcangyfrif hwn rwyf wedi gwneud nifer o ragdybiaethau ynghylch y costau a ragwelir ar gyfer y cyfnod ariannol, fel a ganlyn:

- Rwyf wedi defnyddio ffigur o ddau y cant ar gyfer **cynnydd chwyddiannol** yn achos rhai o'r costau mae chwyddiant yn debygol o effeithio arnynt.
- Fy mholisi cyflog yw adlewyrchu dyfarniadau cyflog y Gwasanaethau Sifil yn fy sefydliad innau. Rwyf wedi derbyn gwybodaeth am ddyfarniad cyflog y Gwasanaeth Sifil ar gyfer 2021-22, ac rwyf hefyd wedi caniatáu ar gyfer amcangyfrif dyfarniad cyflog cyfartalog o 1.5% yn 2022-23.

Credaf fod yr amcangyfrif hwn yn adlewyrchiad cywir o anghenion y sefydliad hawliau dynol annibynnol hwn i Gymru, a fydd yn ei alluogi i barhau i gyflawni effaith a chanlyniadau i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Annwyl Jane,

21 Rhagfyr 2021

**Creu canolfan breswyl i ferched yng Nghymru**

Fel rhan o ystyriaethau blaenraglen waith y Pwyllgor, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu i ofyn am eglurhad ar greu canolfan breswyl i ferched yn ne Cymru. Hoffai'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am:

- sut mae cynlluniau ar gyfer creu canolfan breswyl i ferched yn ne Cymru yn mynd rhagddynt (gan gynnwys amserlenni disgwyliedig); a
- manylion am unrhyw ymgysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru (ar lefel gweinidogol a swyddogol) a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y mater hwn.

Byddwn yn croesawu cael ymateb erbyn **14 Ionawr 2022.**

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

18 Ionawr 2022

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Rhagfyr 2021 ynglŷn â sefydlu canolfan breswyl i fenywod yn ne Cymru.

Mae'r Ganolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd, ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y rhaglen bwysig hon o waith.

Mae'r dull cadarn o weithio mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi bod, ac yn parhau i fod yn ganolog wrth barhau i weithredu'r Glasbrint a datblygu'r Ganolfan Breswyl i Fenywod.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi bod yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol ac ystod eang o bartneriaid lleol er mwyn adnabod safle addas yn ne Cymru a fydd yn sicrhau gwasanaethau therapiwtig ac adsefydlu ar gyfer menywod bregus yn yr ardal leol. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r broses o ddod o hyd i safle addas wedi mynd rhagddi, ac mae asesiadau dichonoldeb wedi eu cwblhau ar safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer datblygu canolfan breswyl i fenywod. Mae'r gwaith hwn yn parhau, ac rydym yn rhagweld y dylai rhagor o wybodaeth fod ar gael ynghylch amserlenni unwaith y bydd y gwaith asesu hwn wedi'i gwblhau.

Mae fy swyddogion yn parhau i fod yn rhan o gyfarfodydd llywodraethu allweddol gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a phartneriaid perthnasol, gan gynnwys cynrychiolaeth ar y Bwrdd Prosiect penodedig ar gyfer y Ganolfan Breswyl i Fenywod yng Nghymru. Ers y cyhoeddiad ym mis Mai 2020 ynglŷn â lleoli'r Ganolfan Breswyl i Fenywod yng Nghymru, rwyf wedi cysylltu'n rheolaidd â Gweinidogion Cyfiawnder y DU. Mae'n fwriad imi gyfarfod â Victoria Atkins, y Gweinidog ar gyfer Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf ddiwedd y mis hwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel yr amlinellwyd yn fy natganiad ysgrifenedig ar 8 Tachwedd 2021, a oedd yn rhoi diweddariad ar faterion sy’n ymwneud â Chyfiawnder a’r Glasbrintiau, byddaf yn parhau i roi gwybod i’r Aelodau am ddatblygiadau.

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Eitem 3.6

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

21 Rhagfyr 2021

Blaengynllunio a gwaith cwmpasu – cyfiawnder data

Fel rhan o ystyriaethau blaenraglen waith y pwyllgor, cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu i ofyn am eglurhad ar y cwestiynau canlynol ym maes diogelu data a chyfiawnder data. Bydd eich ymateb yn helpu i lywio unrhyw waith cwmpasu y gall y Pwyllgor ei wneud yn y dyfodol.

- Pa Weinidog sy'n gyfrifol am reoli data, data biometrig a hawliau digidol?
- I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn defnyddio prosesau sy'n cael eu gyrru gan ddata (fel algorithmau a dadansoddeg ragfynegol) i lywio gwaith cynllunio'r sector cyhoeddus a llunio polisïau? Rhowch enghreifftiau, os gwelwch yn dda.
- Beth yw barn Llywodraeth Cymru am benderfyniad yr Alban i greu Comisiynydd Biometreg?
- A fyddech cystal â nodi barn Llywodraeth Cymru ar y fframwaith rheoleiddio sy'n llywodraethu'r defnydd o ddata gan gynnwys sut mae'n berthnasol i'r setliad datganoledig, effeithiolrwydd y trefniadau presennol, a goblygiadau Brexit i'r trefniadau hyn yn y dyfodol.
- A allwch chi ddarparu cofrestr neu restr o Asesiadau Effaith Diogelu Data a wnaed gan Lywodraeth Cymru fel y gellir gwneud ceisiadau i weld y rhai sydd o'r diddordeb mwyaf?
- A wnaeth Llywodraeth Cymru ymateb i ymgynghoriad **'Data a New Direction'** Llywodraeth y DU, ac a fydd yr ymateb hwnnw'n cael ei gyhoeddi? https:\\www.gov.uk\\government\\consultations\\data-a-new-direction

Byddwn yn croesawu cael ymateb erbyn 14 Ionawr 2022.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

18 Ionawr 2022

Annwyl Cadeirydd,

Ysgrifennaf i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 21 Rhagfyr yn gofyn am eglurhad ynghylch nifer o faterion mewn perthynas â diogelu data a chyfiawnder data yng Nghymru. Rwy'n rhoi sylw i'ch cwestiynau fesul un:

Nid oes Gweinidog sengl yng Nghymru sy'n gyfrifol am reoli data, data biometrig a hawliau digidol, gan mai meysydd polisi yw'r rhain nad ydynt wedi cael eu datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn faterion a gedwir yn ôl gan Lywodraeth y DU.

Fel yr amlinellir yn ein Strategaeth Ddigidol i Gymru, rydym yn awyddus i hyrwyddo arloesi sy'n seiliedig ar ddata i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a chynllunio. Gall hyn gynnwys defnyddio technegau newydd fel dadansoddeg ragfynegol lle y gall hyn fod yn effeithiol wrth wella bywyd dinasyddion. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo, wrth ystyried defnyddio data at ddibenion o'r fath, i sicrhau y gwneir hyn mewn modd diogel, moesegol a theg.

O fewn Llywodraeth Cymru, rydym yn defnyddio rhai prosesau sy'n seiliedig ar ddata i lywio'r gwaith o gynllunio a llunio polisïau ar gyfer sector cyhoeddus. Mae'r platfform geo-orfodol DataMapWales wedi cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau'n helaeth yn ystod y pandemig – er enghraifft, i nodi canolfannau brechu ac amseroedd teithio i ysbytai dros dro. Mae'n cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol yng Nghymru i ymgynghori ar gynlluniau teithio llesol, gan ddwyn ynghyd farn Cymru gyfan am gynigion am y tro cyntaf. Mae DataMapWales hefyd yn cael ei ddefnyddio fel rhan o wasanaeth (o'r enw JIGSO) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymatebwyr brys Cymru i'w helpu i flaenoriaethu ymatebion mewn argyfwng.

Mae DataMapWales wedi cael ei gynllunio i ganiatáu ailddefnyddio'r data, gan alluogi'r sector cyhoeddus a'r sector preifat ddefnyddio gwasanaethau fel rhan o ddadansoddiadau/adroddiadau economaidd. Gwneir hyn mewn ffordd ddiogel.

Mae prosiect Trefi SMART Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddarparu gan Fenter Môn, yn helpu sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i ddysgu sut i ddefnyddio data.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Drwy ddefnyddio technolegau sy'n dod i’r amlwg fel LoRaWAN a thechnolegau sefydledig fel WiFi, gallant ddefnyddio synwyryddion i gasglu data dienw er mwyn deall, er enghraifft, eu sylfaen cwsmeriaid a'u tueddiadau yn well.

O ran eich pwynt am benderfyniad yr Alban i greu Comisiynydd Biometrig,. mae Comisiynydd Camerâu Biometreg ac Arolygaeth y DU yn cwmpasu Heddluoedd Cymru a Lloegr, ac mae'n darparu goruchwyliaeth annibynnol sy'n gysylltiedig â'r defnydd gan yr heddlu o samplau DNA, proffiliau DNA ac olion bysedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r defnydd effeithiol a chyfrifol o ddata biometrig er, fel y nodir uchod, mae polisi data biometrig yn fater sydd heb ei ddatganoli.

O ran eich cwestiwn am y fframwaith rheoleiddio mewn perthynas â diogelu data, credwn ei fod yn gweithio ar hyn o bryd ac agwedd allweddol ar hyn yw'r gweithredu ymarferol a'r canllawiau a gynhyrchir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Mae gennym berthynas adeiladol â'r ICO. Mae perthynas adeiladol hefyd â Llywodraeth y DU ar bolisi data drwy wahanol grwpiau llywodraethu sy'n sail i gyflawni Strategaeth Ddata Genedlaethol y DU, gan roi cyfle i’r llywodraethau datganoledig gyfrannu at syniadau sy'n dod i'r amlwg a'u deall.

O ran goblygiadau data o ganlyniad i Brexit, un o'r risgiau mwyaf oedd gallu'r DU i sicrhau Cytundeb Digonolrwydd gyda'r UE i ganiatáu i wybodaeth lifo am ddim rhwng y DU a'r UE. Ni ddaeth y risg hon i'r amlwg wrth i'r DU sicrhau'r Cytundeb angenrheidiol. Mae perygl newydd os gwneir newidiadau i gyfraith y DU ar lif data a allai beryglu'r Cytundeb hwnnw. Rydym wedi tynnu sylw Llywodraeth y DU at hyn sy'n parhau i fod yn gyfrifol am gamau gweithredu yn y maes hwn a gallwn fonitro datblygiadau o safbwynt Cymru. Byddai newidiadau sy'n tanseilio annibyniaeth yr ICO yn peri pryder i Gymru, yn enwedig y ffordd y mae’r GDPR yn gweithredu.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru restr na chofrestr ganolog o Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth y DU "Data: a New Direction". Ymatebodd Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth a Biometreg y DU hefyd, a chyhoeddir ei ymateb yma. Amgaeir copi o ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Hyderaf fod yr ymateb hwn yn helpu i lunio cynllun gwaith y Pwyllgor wrth symud ymlaen.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

21 Rhagfyr 2021

Annwyl Gadeirydd

Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol

Yr wythnos diwethaf cafodd ein hadroddiad ar y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru ei nodi gan y Senedd.

Hoffwn dynnu eich sylw at yr adroddiad hwn, sy'n cynnwys y Cytundeb.

Mae'r Cytundeb yn cynrychioli'r sefyllfa a gytunwyd rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru ar y wybodaeth y bydd Llywodraeth Cymru, lle y bo'n briodol, yn ei darparu i'r Senedd am ei chyfranogiad mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol ar lefel Gweinidogion, concordatiau, cytundebau a memoranda cyd-ddealltwriaeth.

Bwriad y Cytundeb yw cefnogi gallu'r Senedd i graffu ar weithgarwch Llywodraeth Cymru ac i ddwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif yn yr arena rynglywodraethol. Felly, mae'n bosibl y bydd y Cytundeb o ddiddordeb i chi yng nghyd-destun unrhyw waith craffu y byddwch yn ei wneud yn y dyfodol.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon